

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 01/2010

www.cymru.gov.uk

Archwilio Trosglwyddiadau Addysg Disgyblion 6 i 8 Oed yng Nghymru



Archwilio Trosglwyddiadau Addysg Disgyblion 6 i 8 Oed yng Nghymru

**SQW- Marian Morris, Lisa McCrindle, Jessica Cheung,
Rhian Johnson, Aino Pietikainen a Rachel Smith**

Views expressed in this report are those of the researchers and not necessarily those of the Welsh Assembly Government
Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cynulliad Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Launa Anderson

Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5274

E-bost: Launa.Anderson@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

ISBN

© Hawlfraint y Goron 2011

Tabl cynnwys

Crynodeb Gweithredol	i
1 Cyflwyniad	4
2 Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen	11
3 Trosglwyddo	24
4 Hwyluso trosglwyddo	34
5 Casgliadau ac argymhellion – cefnogi'r trosglwyddo	47
Atodiad 1 Llyfryddiaeth	53
Atodiad 2 Atodiad methodolegol	57
Atodiad 3 Tablau Amledd yr Arolwg	70

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwynwyd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed fesul cam, gan gychwyn yn 2004 gyda 42 ysgol beilot/dechrau'n gynnar, a'i chyflwyno'n llawn ym mlwyddyn academiaidd 2008/09. O ddechrau blwyddyn academiaidd 2011/12 bydd y cwricwlwm newydd wedi'i gyflwyno'n llawn, gyda phob plentyn rhwng tair a saith oed sydd mewn addysg yn dilyn dull dysgu'r Cyfnod Sylfaen.
2. Mae'r symud i ddull dysgu trwy brofiad y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ei gynnig yn her ar bwynt trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 wrth i blant symud o ddull Cyfnod Sylfaen sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, creadigedd a dealltwriaeth i'r dull mwy traddodiadol seiliedig ar bwnc a chynnwys sy'n tanategu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2.
3. Yng ngoleuni'r heriau hyn, penododd Llywodraeth Cynulliad Cymru SQW ddiwedd mis Mai 2010 i gynnal ymchwil i archwilio profiadau o'r trosglwyddiadau yn yr ysgolion a fabwysiadodd y Cyfnod Sylfaen yn gynnar. Lluniwyd yr astudiaeth i fod yn sail i ganllawiau ar gyfer ymarferwyr ac ysgolion yn y dyfodol, cyn diddymu Cyfnod Allweddol 1 fis Awst 2011.
4. Roedd dau nod cyffredinol i'r astudiaeth:
 - bod yn sail i ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgolion ac ymarferwyr Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wrth gyflwyno'r cwricwlwm; a
 - bod yn sail i gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol.
5. Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar brofiadau'r ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar ar y pwynt trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Mae'n ystyried i ba raddau mae profiadau trosglwyddo eu disgyblion yn wahanol i brofiadau disgyblion sy'n trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2.

6. Mae tair prif elfen i'r astudiaeth: adolygiad cychwynnol o'r llenyddiaeth ar drosglwyddo sydd ar gael, a'i ddiweddarau fel sail i lunio'r offer ymchwil; cyfres o astudiaethau achos wyneb yn wyneb mewn 14 ysgol (gan gynnwys cyfweiliadau gyda 44 o ymarferwyr ac ychydig dros 140 o ddisgyblion mewn ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar, ac mewn detholiad o ysgolion nad ydynt hyd yma wedi cyflwyno Cyfnod Sylfaen i blant ym mlwyddyn 2); ac arolwg o benaethiaid a staff Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 ym mhob un o'r 42 o ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar, a sampl gyfatebol o 42 o ysgolion nad sydd wedi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.
7. Mae tystiolaeth o'r arolwg o ymarferwyr ac athrawon a'r cyfweiliadau a gynhaliwyd mewn ysgolion yn awgrymu:
- bod mwyafrif yr ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn gyfarwydd â dull y Cyfnod Sylfaen;
 - yn ôl pob golwg, bod ymarferwyr a phenaethiaid fel ei gilydd wedi croesawu egwyddorion dysgu'r Cyfnod Sylfaen ar y cyfan;
 - bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a gawsant, ond yn nodi'r angen am fwy o bwyslais ar gefnogaeth ymarferol;
 - bod dulliau rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith wedi amrywio ac mae rhai tensiynau'n parhau ynghylch grwpio disgyblion ar sail oedran a gallu, a'r paratoi sydd ei angen i'w helpu i fodloni gofynion Cyfnod Allweddol 2.
8. Yn gyffredinol, roedd athrawon a disgyblion o'r farn bod mwyafrif y plant mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen ac ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn gweld addasu i'w hamgylchedd newydd yn weddol hawdd. Roedd y syniad o symud i Flwyddyn 3 yn eu cyffroi, ond er hynny, nodwyd y gallai plant fod wedi'u paratoi yn well ar y cyfan. Roedd ymatebwyr o ysgolion peilot Cyfnod Sylfaen yn fwy tebygol na'r rheiny o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen i ddweud fod plant yn gweld trosglwyddo yn haws na'u cyddisgyblion o grwpiau hŷn, ond ni allent wneud cysylltiad pendant rhwng cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a gwell trosglwyddo i ddisgyblion. Ymddengys

fod y mecanweithiau gweithredol sy'n cefnogi trosglwyddo llwyddiannus yn eu lle mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen ac mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen ond roedd graddau eu gweithredu a pha mor effeithiol y'u gwelwyd yn amrywio.

9. Mae'r ymchwil wedi amlygu'r arferion a oedd yn ymddangos eu bod yn cefnogi ac yn hwyluso rheoli trosglwyddo llwyddiannus o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Ymhlith y rhain mae:

- **rheoli trosglwyddo rhwng dwy athroniaeth** – lle roedd ysgolion cynradd yn ceisio mabwysiadu un athroniaeth ddysgu fel sail i'r ddau gyfnod dysgu, roedd staff yn cael y trosglwyddo yn haws ei reoli;
- **sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o natur a gofynion y dull Cyfnod Sylfaen a chwricwlwm Cyfnod Allweddol 2** ymhlith ymarferwyr ac athrawon yn y ddau gyfnod dysgu;
- **darparu cyfleoedd i ennill profiad ymarferol** – roedd staff yn amlygu manteision cyfleoedd i ennill profiad yn y ddau gyfnod dysgu;
- **hwyluso hyblygrwydd o ran cynllun y dosbarth ac arfer addysgu** i alluogi ymarferwyr ac athrawon Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 i addasu arfer;
- **cefnogi a hybu cyfathrebu parhaus rhwng y cyfnodau** i gynnal dealltwriaeth parhaus o'r aliniad rhwng y ddau gyfnod dysgu, a monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol.

10. Yn codi o hyn, mae gweithrediadau ac arferion y gellir eu rhoi ar waith a'u cefnogi ar lefel yr ysgol, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r rhain yn helpu i roi trosglwyddo effeithiol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 ar waith, gan sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau cadarnhaol gorau posibl i ddisgyblion ac athrawon fel ei gilydd.

Camau i ysgolion

11. Dylai penaethiaid ac uwch-reolwyr yn yr ysgol arwain datblygu un athroniaeth ar y cyd yn unol ag ethos y Cyfnod Sylfaen, gan gefnogi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn esmwyth a rheoli'r trosglwyddiad i Gyfnod Allweddol 2.
12. Mae angen i ysgolion sicrhau bod staff pob cyfnod (o'r Cyfnod Sylfaen hyd at yr adran iau uwch) wedi'u hyfforddi yn nulliau'r Cyfnod Sylfaen. Gellid gwneud yr hyfforddiant hwn, er enghraifft:
 - trwy sesiynau HMS ffurfiol neu'n anffurfiol (er bod costau ynghlwm â hyn);
 - trwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth (er bod hyn yn her mewn ysgolion lle nad oes digon o gefnogaeth cynorthwywyr yn y dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2 i hwyluso'r dull hwn heb athrawon i gyflenwi);
 - trwy ymweliadau ag ysgolion eraill (unwaith eto, mae costau ynghlwm â hyn).
13. Mae angen i ysgolion geisio defnyddio arferion ystafell ddosbarth cyffredin ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, gan fod y rhain yn cefnogi trosglwyddiadau cadarnhaol.
14. Dylai ysgolion ystyried manteisio ar y cyfle i'w hathrawon a'u hymarferwyr ystafell ddosbarth arbrofi â gwahanol dechnegau – ac i fethu heb feirniadaeth.
15. Awgryma tystiolaeth gan gyfweleion y gallai fod yn fuddiol i annog yr arferion canlynol yn yr ysgol i hwyluso mwy o gyfleoedd ar gyfer staff:
 - cyfarfod a chyfathrebu ag ymarferwyr eraill o fewn y cyfnod ac ar draws cyfnodau;
 - rhannu arfer ac adnoddau;
 - datrys problemau;

- galluogi myfyrio ac adolygu cwricwla'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Camau i awdurdodau lleol

16. Gall awdurdodau lleol ddarparu cefnogaeth a chydlyniant i hwyluso rhannu arfer a phrofiad a chyflenwi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac arsylwi.
17. Roedd ysgolion yn amlygu'r ffaith y gall darparu hyfforddiant drwy'r ysgol fod yn her ac yn ddud a gofynnwyd p'un a allai awdurdodau lleol gefnogi ysgolion trwy ddatblygu hyfforddiant i'w gyflwyno ar ddiwrnodau HMS neu sesiynau gyda'r hwyr. Gwnaeth ymarferwyr ac athrawon y sylw y byddent yn croesawu cyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer ac y gallai'r awdurdod lleol fod yn gyfrwng i hwyluso hyn. Byddai ymarferwyr yn croesawu mynediad at ddarnau amlgyfrwng o arfer neu fforymau/blogiau ar-lein lle gellid rhannu profiad, pryderon a materion; gallai awdurdodau lleol fod â rôl wrth gefnogi a datblygu hyn, gan ganolbwyntio ar faterion a nodwyd yn lleol.

Camau i Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid eraill

18. Roedd mwyafrif y cyfweleion o'r farn bod deunyddiau canllaw presennol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdod lleol ac arall) ar athroniaeth y Cyfnod Sylfaen o fudd. Byddai croeso i ganllawiau ac adnoddau ar agweddau ymarferol ar y Cyfnod Sylfaen (gan gynnwys agweddau ymarferol ar drefnu'r ystafell ddosbarth a storio adnoddau¹) ac felly hefyd enghreifftiau o roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn effeithiol, cefnogaeth effeithiol yng Nghyfnod Allweddol 2 ac arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Byddai croeso hefyd i fynediad at fforwm datrys problemau ar-lein gydag ymarferwyr eraill.
19. Cafodd yr angen am well aliniad hyfforddiant cychwynnol athrawon gydag arferion y Cyfnod Sylfaen ei bwysleisio fel un o'r camau pwysicaf o ran

¹ Mae hyn wedi'i gwmpasu'n rhannol mewn perthynas â gweithgareddau awyr agored yn y Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored ac yn "First steps outside"
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation_phase/foundationphasepractitioners/outdoorlearning/?skip=1&lang=cy

gwella arfer, gan gynnwys y trosglwyddiad i Gyfnod Allweddol 2. Bu canmoliaeth i arferion datblygu proffesiynol parhaus (DPP) ond roedd staff yn pryderu ynghylch y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith athrawon dan hyfforddiant ac athrawon cynradd a Blynyddoedd Cynnar a oedd newydd gymhwyso.

1 Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed, ei gyflwyno fesul cam. Bellach, wrth i ni ddechrau ar flwyddyn academiaidd 2010/11, mae'n cynnwys pob plentyn hyd at bump a chwech oed. O 2011/12, bydd y cwricwlwm wedi'i gyflwyno'n llawn, gyda phob plentyn rhwng tair a saith oed sydd mewn addysg yn dilyn dull dysgu'r Cyfnod Sylfaen.
- 1.2 Mae symud tuag at ddull dysgu trwy brofiad yn cyflwyno heriau yn y pwynt trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 oherwydd bod gwahaniaeth sylfaenol yn y dull. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth, hunan-barch a hyder, creadigedd ac agweddau at ddysgu pob plentyn, yn hytrach na defnyddio'r dull mwy traddodiadol wedi'i seilio ar bwnc sy'n tanategu'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2 (ac sydd wedi bod yn sail i rannau helaeth o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 1 yn y gorffennol). Ymhlith yr heriau a ragwelir mae'r rheiny sy'n wynebu athrawon ac ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2, a allai fod angen iddynt newid eu dulliau dysgu yn sylweddol. Ar ben hynny, mae'n debygol y bydd plant sydd wedi cael profiad o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dangos sgiliau, agweddau a dyheadau gwahanol i'r grwpiau blaenorol o blant a gafodd brofiad o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 1 blaenorol.
- 1.3 Penododd Llywodraeth Cynulliad Cymru SQW ddiwedd mis Mai 2010 i gynnal yr ymchwil amserol hwn i archwilio trosglwyddiadau disgyblion mewn ysgolion peilot a dechrau'n gynnar y Cyfnod Sylfaen. Lluniwyd yr astudiaeth i fod yn sail i ganllawiau ar gyfer ymarferwyr ac ysgolion yn y dyfodol, cyn mabwysiadu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn genedlaethol a chyn diddymu Cyfnod Allweddol 1 fis Awst 2011.

Nod yr astudiaeth

- 1.4 Roedd dau nod cyffredinol i'r astudiaeth:

- bod yn sail i ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgolion ac ymarferwyr Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wrth gyflwyno'r

cwricwlwm i bob sefydliad sy'n gyfrifol am addysg ddisgyblion tri i saith oed; a

- bod yn sail i gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol.

1.5 Mae'r astudiaeth yn adeiladu ar werthusiad dwy flynedd gyntaf peilot y Cyfnod Sylfaen a gynhaliwyd gan Siraj-Blatchford et al yn 2006. Mae'n ystyried profiad yr ysgol, yr athro a'r disgybl o drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 yn yr ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar, o'u cymharu â phrofiadau'r rheiny mewn ysgolion sy'n dal i fod yn gweithredu trosglwyddiad o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2.

Dull

1.6 Yn 2004, dechreuodd 22 o ysgolion gyflenwi'r Cyfnod Sylfaen ac felly roeddent wedi cael profiad o drosglwyddo dau grŵp o blant o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 erbyn y flwyddyn academiaidd 2009/2010². Gelwir y grŵp hwn yn ysgolion peilot. Dechreuodd 22 pellach o ysgolion dechrau'n gynnar gyflenwi'r Cyfnod Sylfaen yn 2007; ar adeg yr astudiaeth, un grŵp o ddisgyblion yn unig oedd wedi cael profiad o drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfeirir at bob ysgol arall fel ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen, er bod y mwyafrif (os nad pob un) eisoes yn rhoi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith gyda'u disgyblion ieuengaf.

1.7 Mae'r astudiaeth hon yn archwiliad gyda ffocws o brofiadau'r ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar o ran yr heriau a'r manteision a geir yn y pwynt trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 yw'r astudiaeth hon. Mae'n ystyried i ba raddau mae profiadau plant o drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 yn wahanol i brofiadau disgyblion sy'n trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2. Mae hefyd yn ceisio darparu cefnogaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â chanllawiau a chefnogaeth y bydd eu

² Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ysgolion meithrin nac ysgolion arbennig, a oedd wedi'u hepgor o'r astudiaeth gyfredol.

hangen ar ymarferwyr ac athrawon yn y dyfodol wrth i bob ysgol roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llawn yn 2011/12.

1.8 Mae tair prif elfen wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth:

- adolygiad cychwynnol a diweddaru'r llenyddiaeth ar drosglwyddo fel sail i lunio'r offer ymchwil;
- cyfres o astudiaethau wyneb yn wyneb mewn ysgolion, gan gynnwys ysgolion peilot/ysgolion dechrau'n gynnar a detholiad o ysgolion nad ydynt hyd yma wedi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i blant ym Mlwyddyn 2;
- arolwg o benaethiaid a staff Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 ym mhob un o'r ysgolion a'i cyflwynodd yn gynnar ac mewn sampl o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen.

1.9 Mae manylion llawn y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon wedi'u cynnwys mewn Atodiad Methodolegol (Atodiad 2)

Ffigur 1-1: Crynodeb o'r dull



Ffynhonnell: SQW

1.10 Comisiynwyd yr ymchwil ddiwedd mis Mai 2010 a chynhaliwyd y gwaith maes a gweinyddwyd yr arolwg post yn y cyfnod chwe wythnos cyn diwedd tymor yr haf. Y bwriad gwreiddiol oedd recriwtio 15 o ysgolion astudiaeth achos, sef deg o ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen a phump o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen wedi'u tynnu o sampl gynrychioliadol o

ysgolion wedi'i ddarparu gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ystod y tymor prysur iawn hwn, llwyddodd y tîm archwilio i gynnwys 15 o ysgolion yn yr astudiaeth. Bu'n rhaid i un o ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen dynnu'n ôl o'r astudiaeth yn hwyr, oherwydd ymrwymadau eraill ar amser staff. Cwtogodd hyn ar nifer yr astudiaethau achos a gwblhawyd i 14; roedd y rhain yn cynnwys saith o ysgolion peilot, dwy ysgol dechrau'n gynnar a phump o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen (gweler Tabl 1-1).

- 1.11 Dylid nodi nad yw'r ysgolion astudiaeth achos yn adlewyrchu pob nodwedd o ysgolion babanod ac ysgolion iau yng Nghymru – er bod y sampl yn cynnwys ysgolion gwledig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a rhai ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, roedd y sampl yn drefol yn bennaf ac yn llai difreintiedig (gyda llai na 25% o gofrestr yr ysgol yn byw mewn ardaloedd hynod ddifreintiedig, er enghraifft). Fodd bynnag, maent yn adlewyrchu nodweddion cyffredinol yr ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar ac maent felly yn arwydd da o lwyddiant cymharol rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith hyd yma.
- 1.12 Roedd ymweliadau â'r ysgolion astudiaeth achos yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb (yn y Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol) gydag 16 o benaethiaid (roedd rhai lleoliadau yn cyflogi dau bennaeth, un ar gyfer yr ysgol babanod a'r llall ar gyfer yr ysgol iau), 15 o ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen, tri o ymarferwyr Cyfnod Allweddol 1 a 13 o ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2. Ar ben hynny, cynhaliwyd 25 o gyfweiliadau grŵp rhyngweithiol gydag ychydig mwy na 140 o blant ym Blwyddyn 2 (12 grŵp) a Blwyddyn 3 (13 grŵp). Roedd dau o'r grwpiau Blwyddyn 3 yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 4 a chynhaliwyd cyfweiliad grŵp arall gyda disgyblion Blwyddyn 1. Roedd nifer y disgyblion ym mhob grŵp yn amrywio, ond fel rheol roedd rhwng chwech ac wyth ynddynt. Cynhaliwyd y cyfweiliadau grŵp hyn hefyd yn y Gymraeg neu yn Saesneg (yn unol â chyfrwng yr addysgu yn yr ysgol). Roeddent yn cynnwys ystod o ymarferion grŵp wedi'u llunio i ennyn ymateb yn bennaf ynghylch teimladau'r plant am y flwyddyn ar ddod (i ddisgyblion Blwyddyn 2) neu'r hyn sy'n wahanol am Flwyddyn 3 o'i chymharu â Blwyddyn 2 (ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 Cyfnod Allweddol (CA) 2).

- 1.13 Anfonwyd holiaduron dwyieithog ar bapur i 84 o ysgolion. Ymhlith y rhain, roedd y 42 o ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar y Cyfnod Sylfaen a sampl gynrychioliadol o 42 o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen, a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Derbyniodd pob ysgol un arolwg i'w lenwi gan y pennaeth a dau gopi o arolwg i'w lenwi gan athro/athrawes y Cyfnod Sylfaen neu arweinydd Cyfnod Allweddol 1 ac athro Cyfnod Allweddol 2.

Tabl 1-1: Nodweddion ysgolion yr astudiaeth achos

		Ysgolion dechrau'n gynnar	Ysgolion peilot	Ysgolion heb fod yn Cyfnod Sylfaen	Holl ysgolion astudiaeth achos
Cyfrwng addysgu	Cyfrwng Saesneg	2	5	3	10
	Cyfrwng Cymraeg	0	1	1	2
	Dwy Ffrwd	0	1	1	2
Lleoliad	Trefol	2	5	5	12
	Gwledig	0	2	0	2
Cyfran y disgyblion sy'n byw yn yr 20% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig ³	0-25%	1	5	5	11
	26-50%	0	0	0	0
	51-75%	0	1	0	1
	76-100%	1	1	0	
					2
Maint yr ysgol	<15 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn	0	2	1	3
	15 – 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn	0	1	1	2
	>30 o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn	2	4	3	9

³ Hierarchaeth ddaearyddol wedi'i llunio i wella adrodd ystadegau ardaloedd bach yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (AGE) Haen Is yng Nghymru a Lloegr. Yn wahanol i wardiau etholiadol, mae haenau AGE o faint cyson ledled y wlad ac ni fyddant yn destun newid ffin yn rheolaidd. Adeiladwyd y 34,378 AGE Haen Is yng Nghymru (1,896) a Lloegr (32,482) o grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch (yn nodweddiadol 4 i 6) ac mae ffiniau wardiau'r Tabl Safonol a ddefnyddiwyd ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2001. Mae ganddynt leiafrif poblogaeth o 1,000.

		Ysgolion dechrau'n gynnar	Ysgolion peilot	Ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen	Holl ysgolion astudiaeth achos
Cymysgedd oedran dosbarthiad au	Pob dosbarth oedran cymysg	0	2	1	3
	Mwyafrif dosbarthiadau yn oedran cymysg	1	2	1	4
	Lleiafrif dosbarthiadau yn oedran cymysg	0	2	1	3
	Dim dosbarthiadau yn oedran cymysg	1	1	2	4

Ffynhonnell: SQW

1.14 O ystyried ei bod mor hwyr yn y tymor a'r cyfnod byr yr oedd yr arolwg ar waith (rhwng dydd Llun 5 Gorffennaf a dydd Gwener 30 Gorffennaf 2010) roedd y cyfraddau ymateb yn dda, yn enwedig o ysgolion Cyfnod Sylfaen (lle roedd ymatebion oddi wrth ymarferwyr ac athrawon yn uwch na 50%) ac ysgolion dechrau'n gynnar. Mae Tabl 1-2 yn crynhoi nifer a math yr ymatebion i'r arolygon.⁴

Tabl 1-2: Crynodeb o ymatebion i'r arolwg o ysgolion

	Ymateb	Nifer yr arolygon a anfonwyd	Cyfradd ymateb
Arolwg penaeithiad			
Ysgolion peilot	13	22	59%
Ysgolion dechrau'n gynnar	10	20	50%
Ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen	17	42	40%
Di-ddosbarth	3		
Cyfanswm	43	84	51%
Arolwg ymarferwyr			
Ysgolion peilot	25	44	57%

⁴ Dychwelodd tair ysgol arolygon yr oedd y cod adnabod wedi'i ddileu, naill ai oherwydd eu bod wedi llungopio'r holiadur papur gwreiddiol neu wedi argraffu e-bost yn eu hatgoffa, heb gynnwys y cod.

	Ymateb	Nifer yr arolygon a anfonwyd	Cyfradd ymateb
Ysgolion dechrau'n gynnar	18	40	45%
Ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen	25	84	30%
Di-ddosbarth	3		
Cyfanswm	71	168	42%

Ffynhonnell: SQW

Strwythur yr Adroddiad

1.15 Mae strwythur yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn rhoi cyflwyniad byr i'r Cyfnod Sylfaen ac mae'n archwilio'r heriau a allai o bosibl ddod yn ei sgil wrth drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2. Mae'n cynnwys trafodaeth ynghylch ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cyfnod a'r ffyrdd y'i rhoddwyd ar waith.
- Mae Adran 3 yn edrych ar brofiad trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen (a Chyfnod Allweddol 1) i Gyfnod Allweddol 2, o safbwynt disgyblion ac ymarferwyr, ac yn archwilio i ba raddau y mae ysgolion wedi gallu rhoi strategaethau ar waith sy'n cefnogi agweddau emosiynol-gymdeithasol ar drosglwyddo a hefyd agweddau trefniadol ar drosglwyddo.
- Mae Adran 4 yn ystyried yr arferion a roddwyd ar waith sydd wedi arwain at drosglwyddo mwy effeithiol, ac mae'n edrych ar y manteision a'r llwyddiannau (yn ogystal â'r heriau) a ddaeth i'r amlwg.
- Mae Adran 5 yn manylu ar ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer canllawiau a chefnogaeth i'r cyflwyno cenedlaethol.

2 Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

Crynodeb

Mae tystiolaeth o ddata arolwg a chyfweiliadau yn awgrymu:

- bod mwyafrif yr ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn gyfarwydd â dull y Cyfnod Sylfaen;
- bod ymarferwyr a phenaethiaid fel ei gilydd wedi croesawu egwyddorion dysgu'r Cyfnod Sylfaen ar y cyfan yn ôl pob golwg;
- bod ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a gawson nhw ond yn nodi'r angen am fwy o bwyslais ar gefnogaeth ymarferol;
- bod dulliau rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith wedi amrywio ac mae rhai tensiynau'n parhau ynghylch oedran disgyblion a'u grwpio ar sail gallu, a gofynion cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2.

- 2.1 Cafodd y Cyfnod Sylfaen ei gyflwyno ledled Cymru yn 2008, fel dull newydd o ddysgu i blant rhwng tair a saith oed. Mae'n cyfuno'r hyn y cyfeirir ato'n gyffredinol fel Addysg y Blynyddoedd Cynnar (ar gyfer plant tair i bump oed) a Chyfnod Allweddol 1 (plant pump i saith oed) yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- 2.2 Trawsnewidiwyd y ffocws blaenorol ar gwricwlwm sylfaenol a chenedlaethol seiliedig ar bynciau yn fframwaith ar sail ymchwil ar gyfer dysgu sy'n cydnabod anghenion datblygiadol y plentyn. Ei nod yw hybu dysgwyr annibynnol, gyda sgiliau a dealltwriaeth ar draws y saith Maes Dysgu: sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad corfforol, datblygiad creadigol, datblygu'r iaith Gymraeg a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch. Gan ddilyn y dulliau addysgol a fabwysiadwyd yn Llychlyn a Reggio Emilia yn yr Eidal, mae'n canolbwyntio ar ddefnyddio dysgu trwy brofiad a chwarae, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr amgylchedd awyr agored er mwyn hybu datblygiad plentyn.
- 2.3 I grynhoi, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio ar yr egwyddor y dylai darpariaeth blynyddoedd cynnar gynnig sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol trwy gwricwlwm sy'n briodol o ran datblygiad. Mae'n rhoi pwyslais

mawr ar blant yn 'dysgu trwy wneud'. Trwy'r Cyfnod Sylfaen, er enghraifft, rhagwelir y rhoddir mwy o gyfleoedd i blant ifanc gael profiadau'n uniongyrchol trwy chwarae a chymryd rhan yn hytrach na chwblhau ymarferion mewn llyfrau. Mae'r ffocws ar roi amser i blant ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando a dod yn hyderus yn eu gallu i ddarllen ac ysgrifennu. Rhoddir mwy o bwyslais ar helpu plant i ddeall sut mae pethau'n gweithio ac ar ddod o hyd i wahanol ffyrdd i ddatrys problemau yn hytrach na chynnwys pynciau.

Pa heriau i'r trosglwyddiad i Gyfnod Allweddol 2 a allai o bosibl ddod yn sgil y Cyfnod Sylfaen?

- 2.4 Mae trosglwyddo yn gyfnod llawn her, gyda sawl elfen yn dylanwadu ar ei lwyddiant a gall methu â sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus arwain at oedi yn nysgu plant. Yn 2009, nododd yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF) nifer o ffactorau a allai arwain at drosglwyddiadau llai llwyddiannus o'r Cyfnod Sylfaen⁵ i Gyfnod Allweddol 1 a rhwng Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn Lloegr. Manylir ar y ffactorau hyn yn Nhabl 2-1.

Tabl 2-1: Ffactorau sy'n arwain at drosglwyddiadau llai llwyddiannus o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 1 a 2.


Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2
- Trosglwyddiadau sydyn i ddulliau addysgu mwy ffurfiol, gyda llai o amser ar gyfer gweithgareddau y mae'r plentyn yn eu cychwyn, dewis a chwarae (Ofsted 2004; Sanders et al. 2005). - Mae'n bosibl bod staff ym Mlwyddyn 1 yn cael llai o gymorth cynorthwyyr dysgu na'u cydweithwyr yn y dosbarth Derbyn, ac mae'n bosibl nad ydynt yn cydnabod pryderon disgyblion a'u rhieni/eu gofaluwr yn ddigonol ar yr adeg hon (Sanders et al. 2005).	- Disgwyliadau uwch a gwahanol oddi wrth ddisgyblion, yn enwedig o ran gwaith annibynnol. - Pwysau cynyddol i gwmpasu cynnwys cwricwlwm, ffyrdd newydd ac anghyfarwydd o weithio. - Llai o ymglymiad rhieni. - Dyrannu athrawon 'gwannach' i Flwyddyn 3. - Cynllunio gwael ar gyfer trosglwyddo, nad yw'n nodi disgyblion sy'n perfformio'n wael (Doddington et al., 2001).

Ffynhonnell: DCSF, 2009, Deprivation and Education: The evidence on pupils in England: Foundation Stage to Key Stage 4

⁵ Mae'r Cyfnod Sylfaen ar Gyfer Blynnyddoedd Cynnar (EYFS) yn gosod safonau ar gyfer datblygu, dysgu a gofalu am blant o'u genedigaeth i bump oed yn Lloegr. Rhaid i bob darparwr gofal Blynnyddoedd Cynnar cofrestredig ddefnyddio fframwaith statudol EYFS.

- 2.5 Mae rhai gwahaniaethau sylfaenol o ran materion yn ymwneud â throsglwyddo yng Nghymru, yn rhannol am nad oes trosglwyddiad sydyn i addysgu ffurfiol yng Nghyfnod Allweddol 1. Er hynny, gallai'r materion a nodwyd mewn perthynas â throsglwyddo o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2 o bosibl fod yn berthnasol i drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, yn enwedig o ran materion yn ymwneud â disgwyliadau academiaidd, ffyrdd o weithio a chynnwys y cwricwlwm. Fodd bynnag, ymddengys bod materion yn ymwneud â disgwyliadau gweithio'n annibynnol yn llai tebygol o ddod i'r golwg, gan fod y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio ar annog datblygu dysgwyr annibynnol. Efallai bod mapio Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen i feysydd pwnc Cyfnod Allweddol 2 yn fwy o her.
- 2.6 Mae Ffigur 2-1 yn amlinellu'r cysylltiadau a ragwelir rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm Cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2, gan amlygu'r berthynas rhwng yr elfennau unigol ym Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen a'r pynciau unigol sy'n ffurfio cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2. Mae'n dangos sut gallai agwedd 'datblygu creadigol' y Cyfnod Sylfaen gysylltu â gweithgareddau fel cerddoriaeth, celf, dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol, er enghraifft. Mae cysylltiadau'n amlwg hefyd rhwng gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd yn y Cyfnod Sylfaen a gwyddoniaeth, daearyddiaeth, hanes, dylunio a thechnoleg a TGCh yng Nghyfnod Allweddol 2.

Ffigur 2-1 Cysylltiadau rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2



Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen – o 3 i 7 oed, tud 26 wedi'i golygu i adlewyrchu enwau diwygiedig y Meysydd Dysgu

- 2.7 Er y gellir modelu'r cysylltiadau cwricwlwm hynny, daw'r newid o ddatblygu gwybodaeth bynciol yng Nghyfnod Allweddol 1 i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol yn y Cyfnod Sylfaen â her mwy sylfaenol i drosglwyddo. Bydd plant sy'n mynd o amgylchedd y Cyfnod Sylfaen sy'n canolbwyntio ar chwarae yn symud i strwythur cwricwlwm mwy ffurfiol yng Nghyfnod Allweddol 2. Er y bydd plant wedi cymryd rhan mewn dysgu i hybu sgiliau academiaidd (mathemateg a llythrennedd, er enghraifft), gall y model dysgu a rhyngweithio y maent yn dod ar ei draws yng Nghyfnod Allweddol 2, gyda chwricwlwm seiliedig ar bynciau, fod yn wahanol iawn. Er y gall plant fod yn yr un ysgol, mae'n bosibl y bydd trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen, lle mae plant yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol, i Gyfnod Allweddol 2, lle gall yr arfer addysgeg fod yn eithaf gwahanol i unrhyw beth y maent wedi dod ar ei draws o'r blaen, fod yn anodd. Gall o bosibl, yn y sefyllfa waethaf, hyd yn oed arwain at ddadrithiad neu ymddieithriad (p'un ai'n weithredol neu'n anweithredol).


- 2.8 Felly, mae rôl athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2 wrth helpu plant i gwblhau'r trosglwyddiad hwnnw yn holl bwysig. Yn nyddiau cynnar cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, gwnaeth Siraj-Blatchford et al (2005) sylw ar anghysondebau o ran trefniadau trosglwyddo a hyfforddi staff yn ystod camau cynharaf y Cyfnod Sylfaen. Oni bai fod athrawon plant yn y Cyfnod Allweddol hwn yn datblygu dealltwriaeth o brofiadau addysgol a'r sgiliau academaidd a chymdeithasol y mae plant yn eu datblygu yn y pedair blynedd rhwng tair a saith oed, ac yn gallu addasu eu harfer addysgeg, mae'n bosibl na fyddant yn gallu adeiladu ar y sgiliau hyn yn effeithiol, na manteisio ar y dysgu a ddaeth yn ystod y Cyfnod Sylfaen, er mwyn hybu cynnydd cyflym. Mewn astudiaeth gynharach o drosglwyddo i ysgolion cynradd yn yr Alban, daeth Stephen a Cope (2003) i'r casgliad: *Roedd hi'n amlwg fod athrawon yn gweld trosglwyddo i ysgol yn broses unffordd lle roedd rhaid i blant 'addasu' i mewn i ysgol. Ni welent fod ymateb i amrywiaeth hoff bethau plant, eu profiadau blaenorol a'u cefndir yn dasg iddynt hwy.*
- 2.9 Awgrymodd adroddiad Estyn yn 2005, a ysgrifennwyd wedi i'r 41 (bellach 42) o ysgolion peilot gyflwyno fframwaith y Cyfnod Sylfaen, fod llawer o ysgolion 'eisoës yn cynllunio'u dulliau ysgol gyfan i addysgu a dysgu i gynnwys y cyfnod hwn', a bod y Cyfnod Sylfaen yn 'dechrau helpu plant ifanc i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol gwell'. Yn y cyfnod hwnnw, blwyddyn yn unig wedi lansio'r cynllun peilot fis Medi 2004, ni fyddai ganddynt unrhyw dystiolaeth i asesu i ba raddau roedd cynnydd plant mewn sgiliau dysgu'n annibynnol yn trosi'n gynnydd yng Nghyfnod Allweddol 2. Ers y dyddiad hwnnw, mae Estyn wedi parhau i wneud sylwadau ffafriol ar roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith o ran ansawdd gweithgareddau ymarferol, lefel yr her y maent yn ei chynnig i blant, ymrwymiad a gwybodaeth ymarferwyr a'r effaith ar gyrhaeddiad plant.⁶ Fodd bynnag, nid ydynt hyd yma wedi gwneud sylw ar effaith canfyddedig y Cyfnod Sylfaen ar drosglwyddo a symud ymlaen i Gyfnod Allweddol 2.

⁶ Gweler, er enghraifft, adroddiad crynodeb cylch gwaith diweddaraf Estyn (2010), a awgrymodd 'Yn y Cyfnod Sylfaen, mae arwyddion cynnar yn awgrymu fod dulliau mwy ymarferol yn arbennig o werthfawr wrth helpu i godi safonau cyflawni bechgyn mewn mathemateg.'
http://www.estyn.gov.uk/AR_2010/Estyn%20Remit%20Summaries%20cy.pdf

Ymwybyddiaeth o'r Cyfnod Sylfaen

2.10 Fel y manylwyd arno yn Adran 1 yr adroddiad hwn, canolbwyntiodd yr astudiaeth ar ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen a sampl gynrychioliadol o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen. Mae canlyniadau'r arolwg ysgolion yn rhoi golwg werthfawr ar lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen ymhlith staff mewn ysgolion peilot o'u cymharu â'r ysgolion ehangach sydd wrthi'n cwblhau ei gyflwyniad.

Ffigur -2-2: Adnabyddiaeth fanwl ymarferwyr o'r Cyfnod Sylfaen



Ffynhonnell: SQW N= 71

2.11 Yn y cam hwn, cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llawn, dywedodd mwyafrif yr ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 eu bod yn gyfarwydd â'r Cyfnod Sylfaen (gweler Ffigur 2-2), gydag un yn unig o'r 71 o ymatebwyr yn dweud nad oedd yn gwybod 'rhyw lawer' amdano. Nid yw'n syndod fod lefel yr wybodaeth weithiol fymryn yn uwch mewn ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar (roedd 30 allan o'r 43 o ymatebwyr o ysgolion o'r fath yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen). Ond eto, roedd cyfran yr ymarferwyr heb fod yn Gyfnod Sylfaen a fynegodd eu bod yr un mor gyfarwydd (14 allan o 25 o ymatebwyr heb fod yn Gyfnod Sylfaen) hefyd yn uchel iawn, gan awgrymu bod barn Estyn, fod ysgolion eisoes wrthi'n paratoi ac yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn gywir. Yn wir, roedd ymarferwyr yn yr ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen hefyd

yn ymddangos yn gyfforddus â'r dull, gyda'r mwyafrif wedi symud cryn dipyn yn nes at roi'r cwricwlwm ar waith yn llawn.

2.12 Er hynny, dywedodd tua thraean o'r holl ymatebwyr a oedd yn ymarferwyr (nid oedd pob un ohonynt yn ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2, y gellir o bosibl eu disgwyl i fod yn llai cyfarwydd â Fframwaith (cwricwlwm) y Cyfnod Sylfaen) yr hoffent wybod mwy, sef safbwynt a gafwyd hefyd yn yr ysgolion astudiaeth achos. Dywedodd mwyafrif yr ymarferwyr Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar eu bod yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a gawsant gan yr awdurdod lleol. Dywedwyd ei fod wedi rhoi gwybodaeth i athrawon am athroniaethau'r Cyfnod Sylfaen. Er hynny, dywedodd ymarferwyr mewn rhai ysgolion peilot yr hoffent wybod mwy am y nifer o *bethau ymarferol* ynglŷn â rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Ymhlith y rhain oedd ymholiadau logistaidd syml, megis sut dylent drefnu'r gwahanol ardaloedd darpariaeth oddi mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, ac ymhle a sut y dylent storio'r adnoddau addysgu a dysgu ychwanegol y byddai eu hangen. Gwnaeth rhai ymarferwyr Cyfnod Sylfaen y sylw eu bod, ar ddechrau eu cyflwyniad i'r Cyfnod Sylfaen, wedi teimlo wedi eu hynysu i raddau a'u bod wedi mabwysiadu dull profi a methu o ran rhoi'r Cyfnod ar waith oherwydd diffyg canllawiau ymarferol. Wrth gwrs, dechreuodd yr ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen cyn datblygu a chyhoeddi'r hyfforddiant a'r canllawiau sydd bellach ar gael. Mae'r sylw hwn yn amlygu'r angen am gefnogaeth ymarferol a chanllawiau priodol.

2.13 Roedd nifer llai o athrawon Cyfnod Allweddol 2 wedi cael hyfforddiant gan yr awdurdod lleol na'u cymheiriaid Cyfnod Sylfaen, ond roeddent yn dweud eu bod wedi'u cyfarwyddo â'r cwricwlwm trwy arsylwi gwersi, rhaeadru strategaethau hyfforddi a rhwydweithiau cefnogi anffurfiol yn yr ysgol. Nid oedd hyn yn golygu bob amser bod gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen yn fanwl gywir, fel y rhybuddiodd un athro Cyfnod Allweddol 2, cyn canmol y rhannu anffurfiol a oedd, er hynny, yn digwydd.

Mae staff yma yn gefnogol iawn, maent yn esbonio ac os daw dogfennaeth newydd, maent yn ei rhannu gyda ni – er budd iddynt hwy ac i minnau. (Athro Cyfnod Allweddol 2)

- 2.14 Roedd penaethiaid a ymatebodd i'r arolwg ar y cyfan yn hyderus ynghylch lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith eu staff Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 1. Yn ôl pob golwg, roeddent yn llai ffyddiog ynghylch lefel ymwybyddiaeth ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 o'r Cyfnod Sylfaen na'r ymarferwyr eu hunain. Teimlai pymtheg o'r 25 o ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 a ymatebodd yn hyderus ynglŷn â'u hymwybyddiaeth, ond roedd 26 o'r penaethiaid a ymatebodd o'r farn bod gan eu staff Cyfnod Allweddol 2 'lefelau cymysg o wybodaeth am y Cyfnod Sylfaen' neu fod arnynt angen gwybod mwy. Roedd penaethiaid yr ysgolion astudiaeth achos yn ymddangos yn ymwybodol nad oedd Athrawon Cyfnod Allweddol 2 wedi'u hyfforddi mewn arferion dysgu trwy brofiad i'r un graddau ag athrawon y Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 1. Roedd un pennaeth o'r farn nad oedd yr adnoddau angenrheidiol i hyfforddi a chefnogi staff Cyfnod Allweddol 2 ar gael yn ei ysgol. Yn ei dro, roedd hyn yn effeithio ar allu athrawon i barhau elfennau o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 2.

Dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen

- 2.15 Roedd ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod ymarferwyr a phenaethiaid yn gyffredinol wedi croesawu egwyddorion dysgu'r Cyfnod Sylfaen, gydag ymatebwyr i'r arolwg yn gefnogol i egwyddorion dysgu'r Cyfnod Sylfaen ar y cyfan. Roeddent o'r farn bod y saith maes dysgu yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob plentyn ac yn dweud eu bod '*yn gyfforddus â'r syniad o 'ddysgu seiliedig ar chwarae'* ac '*yn hapus yn gweithio gyda phlant y tu allan i'r ystafell ddosbarth*'.
- 2.16 Roedd penaethiaid, ymarferwyr ac athrawon ym mwyafrif ysgolion yr astudiaeth achos yn cytuno bod ymarferwyr wedi mabwysiadu a chroesawu athroniaethau'r Cyfnod Sylfaen – yn enwedig y sawl (yn gyffredinol ymarferwyr ac athrawon mwy profiadol) yr oedd eu hyfforddiant gwreiddiol yn canolbwyntio ar arferion tebyg i'r rheiny a ddefnyddir yn y

Cyfnod Sylfaen. Yn wir, dywedodd nifer mawr o athrawon y Cyfnod Sylfaen eu bod wedi defnyddio dulliau 'dysgu gweithredol' yn eu hystafelloedd dosbarth cyn y peilot. O gofio hyn, tybid nad oedd angen newid o bwys yn ethos llawer o ysgolion i blant o'r oedran hwn wrth symud i'r Cyfnod Sylfaen. Dywedodd athrawon y Cyfnod Sylfaen eu bod yn hynod o frwdfrydig ynghylch caniatáu i blant gyfarwyddo eu dysgu eu hunain, gan roi dysgu seiliedig ar destunau ar waith a defnyddio'r amgylchedd awyr agored. Roeddent o'r farn y byddai'r rhain i gyd yn datblygu dysgwyr creadigol ac annibynnol.

- 2.17 Ymddengys fod athrawon Cyfnod Allweddol 2 ym mhob un o'r ysgolion astudiaeth achos hefyd wedi croesawu'r Cyfnod Sylfaen. Er bod rhai pryderon cychwynnol bod y Cyfnod Sylfaen yn canolbwyntio'n bennaf ar chwarae yn hytrach na dysgu, dywedwyd bod hyfforddiant diweddarach ac arsylwi yn yr ystafell ddosbarth wedi dileu eu camsyniadau cynharach. Mewn gwirionedd, dywedodd mwyafrif yr athrawon Cyfnod Allweddol 2 y siaradom ni â nhw eu bod wedi cymryd camau i roi rhai o athroniaethau ac arferion y Cyfnod Sylfaen ar waith yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain.

Rydw i'n fwy ymarferol gyda'r plant fy hunan a dweud y gwir... byddwn yn siarad am y testun a'r syniadau sy'n codi ac rwy'n dueddol o'u bwydo i mewn i fy nghynllunio beth bynnag. (Athro Cyfnod Allweddol 2)

Rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar Waith

- 2.18 Tra roedd ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn llwyr gefnogi'r syniad o addysgu'n unol â cham datblygiadol plant⁷ ac roedd penaethiaid yn cytuno â hyn mewn egwyddor, roedd mwy na hanner (22 o'r 43) y penaethiaid a wnaeth ymateb yn cytuno â'r datganiad '*mai oedran ddylai fod y ffactor allweddol sy'n penderfynu beth (a sut) y bydd plentyn yn cael ei addysgu*'. Mae'n bosibl bod hyn yn amlygu tensiwn posibl a pharhaus wrth roi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar waith – rhwng addysgu plant ar lefel sy'n addas iddynt yn unigol ac ystyriaethau ymarferol trefnu ystafelloedd dosbarth. Mae addysgu'n unol â chyfnod, yn hytrach nag oedran, yn

⁷ Roedd ymatebwyr o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen fymryn yn llai sicr am hyn.

awgrymu'r angen am ddosbarthiadau oedran cymysg, er enghraifft. Llond llaw yn unig o'r ysgolion astudiaethau achos oedd wedi mabwysiadu'r dull hwn. Er enghraifft, roedd un ysgol beilot wedi cyfuno'r feithrinfa trwodd i ddosbarthiadau blwyddyn 2 yn un uned Cyfnod Sylfaen a oedd felly'n caniatáu grwpio fesul gallu.

Mae angen i ni edrych ar y plant fel unigolion a gweithio o ble maen nhw wedi cyrraedd. (Athrawes Cyfnod Sylfaen)

2.19 Mewn ysgolion peilot a dechrau'n gynnar eraill, roedd ystod y dulliau a fabwysiadwyd yn amrywio. Yn rhai o'r ysgolion hyn, roedd dosbarthiadau wedi'u grwpio'n unol ag oedran ond lle bo'n bosibl, cynhaliwyd addysgu ar y cyd yn seiliedig ar anghenion disgyblion. Mewn ysgolion eraill, nid oedd grwpio'n unol â gallu'n bosibl gan fod, er enghraifft, nifer mawr o ddisgyblion yn cael eu derbyn; lle roedd dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wahân; neu lle nad oedd strwythur yr adeilad yn ei ganiatáu. Lle roedd plant yn parhau i fod mewn dosbarthiadau wedi'u grwpio ar sail oed, dywed athrawon eu bod yn defnyddio grwpiau ar sail gallu i strwythuro'u dosbarthiadau. Er hyn, roedd ymdeimlad cyffredinol ymhlith athrawon y Cyfnod Sylfaen ac athrawon Cyfnod Allweddol 1 fod ar blant angen cyrraedd 'lefel' benodol o allu cyn mynd i mewn i'r dosbarthiadau iau.

2.20 Dywedodd bron pob un o'r ymarferwyr Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 eu bod bellach wedi'u hyfforddi mewn dysgu trwy brofiad, er bod nifer llai o athrawon a chynorthwywyr dosbarth Cyfnod Allweddol 2 wedi cwblhau hyfforddiant o'r fath. Mae tystiolaeth o ymchwil yr astudiaethau achos yn cefnogi'r casgliadau hyn. Nododd mwyafrif athrawon y Cyfnod Sylfaen eu bod hwy, ynghyd â'u cynorthwywyr dosbarth, wedi derbyn hyfforddiant gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, dim ond ychydig o athrawon Cyfnod Allweddol 2 oedd wedi cychwyn ar eu hyfforddiant a dywedasant eu bod yn gorfod dibynnu ar eu cydweithwyr yn y Cyfnod Sylfaen am wybodaeth.

2.21 Teimlai ymarferwyr yn gryf na ddylai plant eistedd yn dawel wrth eu desg mewn ystafell ddosbarth. Er hynny, tra roedd penaethiaid yn ymwybodol

bod eu hymarferwyr Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 wedi dilyn yr hyfforddiant, ac yn cytuno bod staff yn gyfforddus gyda chysyniad dysgu seiliedig ar chwarae, roedd mwy na hanner ohonynt yn parhau i fod o'r farn bod yn well gan eu staff y dull traddodiadol hwn o reoli ystafell ddosbarth. Awgryma hyn ei bod yn bosibl bod diffyg cysylltiad yn parhau rhwng canfyddiad ac arfer mewn ysgolion, gydag ymarferwyr yn symud ymlaen (neu'n meddwl eu bod yn symud ymlaen) yn gyflymach nag y mae eu penaethiaid o bosibl yn sylweddoli.

- 2.22 Er y dywedodd rhai cyfweleion fod yna o bosibl amheuaeth ar y dechrau ynghylch dull addysgu a dysgu seiliedig ar chwarae, roedd mwyafrif ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ac athrawon Cyfnod Allweddol 1 yn frwdfrydig ynghylch y dull cwricwlwm newydd. Yn wir, roedd mwyafrif y cyfweleion Cyfnod Allweddol 1 wedi addasu, neu wedi dechrau addasu, eu dulliau addysgu lle bo angen, er mwyn hwyluso rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Fodd bynnag, roedd rhai ymarferwyr o'r farn bod angen i rai meysydd addysgu a dysgu barhau'n fwy ffurfiol er mwyn sicrhau y ceir sgiliau sylfaenol, ac roeddent yn addasu eu harfer i gefnogi hyn.

Roedd yr ysgol iau yn pryderu am lawysgrifen, felly rydym wedi rhoi sylw i hynny'r tymor hwn a gweithio ar lawysgrifen. Ddim nad ydym yn gweithio ar lawysgrifen, ond fe wnaethom lawysgrifen yn ffurfiol.
(Pennaeth)

- 2.23 Yn olaf, roedd cytundeb cyffredinol y byddai'r Cyfnod Sylfaen yn arwain at well canlyniadau i blant mewn perthynas â gallu gwell i weithio gydag eraill, mwy o hunan hyder a'r gallu i fod yn ddysgwyr annibynnol, gyda'r holl ymatebwyr, bron, o'r farn y byddai'n helpu rhai plant (os nad pob plentyn bob amser). Mewn meysydd eraill, megis ymddygiad a chyrhaeddiad academiaidd, nid oedd teimladau cyn gryfed, er eu bod yn parhau'n gadarnhaol (gweler Atodiad 3). Yn un o'r ysgolion astudiaeth achos, er enghraifft, dywedodd staff fod llai o broblemau ganddynt o ran ymddygiad ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a bod ymddygiad gwell yn hwyluso trosglwyddiad cadarnhaol i blant.

Ymglymiad rhieni a'u barn am y Cyfnod Sylfaen

- 2.24 Roedd mwyafrif y cyfweleion a fynegodd eu barn yn credu bod rhieni wedi croesawu'r Cyfnod Sylfaen, er i o leiaf un pennaeth nodi pryderon rhieni ynghylch y cwricwlwm ar ei newydd wedd ar y dechrau. Roedd ysgolion wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno'r dull newydd o fynd ati, gyda rhai'n defnyddio nosweithiau rhieni ffurfiol ac eraill yn dewis strategaethau anffurfiol, megis polisïau drws agored, gan deimlo bod cyfarfodydd ffurfiol yn brawychu rhieni neu eu bod yn anfodlon mynd i gyfarfodydd ffurfiol. Roedd hyn yn ddigon gwir yn yr ysgolion mwy difreintiedig y gwnaethom ymweld â hwy, lle dywedwyd na fyddai llawer yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r fath ar y cyfan.
- 2.25 Un o'r heriau a wynebai ysgolion oedd argyhoeddi rhieni nad anhrefn llwyr oedd dysgu seiliedig ar chwarae, ond ei fod yn gallu arwain at ddatblygiadau gwirioneddol mewn sgiliau a dealltwriaeth. Ymddengys fod dulliau anffurfiol o fynd ati, mewn llawer o achosion, mor llwyddiannus â sesiynau ffurfiol sy'n cyflwyno gwybodaeth o ran hybu ymwybyddiaeth rhieni o hyn, hyd yn oed os oedd ysgolion yn ymwybodol bod gwaith i'w wneud i sicrhau dealltwriaeth gyflawn o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mewn un ysgol drefol ddifreintiedig, er enghraifft, tybir bod polisi drws agored pan fo rhieni'n cael eu croesawu i'r ystafelloedd dosbarth i weld yr hyn mae eu plant yn ei wneud wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn presenoldeb yn yr ysgol. Yn yr enghraifft honno, dywedwyd mai'r disgyblion oedd llysgenhadon gorau'r ysgol a hefyd y Cyfnod Sylfaen. Roedd eu brwdfrydedd am y gwaith yr oeddent yn ei wneud (gan gynnwys mathemateg) yn lleddfu pryderon rhieni ac yn rhoi hyder iddynt fod dysgu yn digwydd – hyd yn oed os nad mewn llyfr gwaith taclus wedi'i farcio y gwelwyd hynny.
- 2.26 Roedd cyfweleion yn rhanedig o ran i ba raddau yr oedd ymgysylltu wedi newid ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion o'r farn bod newidiadau i amgylchedd ffisegol yr ysgol wedi ysgogi rhieni i ddod i mewn i'r ysgol yn amlach, dim ond efallai oherwydd chwlfrydedd ac i weld y cyfleusterau (neu eu defnyddio mewn rhai achosion). Mewn

achosion eraill, dywedodd cyfweleion na fu unrhyw newidiadau nodedig yn lefel gyffredinol ymgysylltu â rhieni, ar wahân i deithiau ysgol (mae mwy ohonynt bellach), gan fod eu perthynas â rhieni bob amser wedi bod yn weithgar. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd rhai ymarferwyr o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen wedi lleihau lefelau cysylltu â rhieni gan fod y niferoedd uwch o gynorthwywyr dysgu wedi arwain at leihad yn yr angen i recriwtio rhieni i helpu â phrosiectau neu weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Casgliad

- 2.27 I ba raddau y mae yna dystiolaeth fod y dull newydd wedi cefnogi symud plant ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg? Er bod rhai pryderon ynghylch elfennau ymarferol rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith (ac roedd tensiynau i'w gweld ar adegau ynglŷn â strwythur a threfniadaeth grwpiau ystafell ddosbarth), ar y cyfan roedd ymatebwyr yr arolwg a chyfweleion mewn ysgolion astudiaeth achos o blaid dull y Cyfnod Sylfaen ac yn gadarnhaol ynghylch ei effaith ar eu hystafell ddosbarth a datblygiad disgyblion. Ystyrid bod rhieni o blaid y cwricwlwm newydd, hyd yn oed lle roedd ganddynt bryderon ar y dechrau ynghylch faint o ddysgu a fydda'n digwydd. Fodd bynnag, beth oedd barn athrawon a rhieni am effaith y Cyfnod Sylfaen ar drosglwyddo?
- 2.28 Yn y bennod nesaf byddwn yn archwilio'r dystiolaeth ynghylch trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 yn fwy manwl.

3 Trosglwyddo

Crynodeb

Mae data o'r arolygon ac o gyfweiliadau gydag ymarferwyr a phlant ym Mlynnyddoedd 2 a 3 yn awgrymu:

- bod ymarferwyr o'r farn bod mwyafrif y plant yn gweld addasu i ddisgwyliadau eu hamgylchedd newydd yn gymharol hawdd, **ond** yn teimlo y gellid paratoi plant yn well;
- bod plant mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen ac mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn cyffroi wrth feddwl am symud i fyny i Flwyddyn 3, yn hytrach na'n pryderu am y trosglwyddo o'u blaen;
- bod plant ym Mlwyddyn 3 mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen yn dueddol o ofidio mwy am adael Blwyddyn 2 na'u cymheiriaid, **ond** nid oeddent yn pryderu'n ormodol, gan weld colli rhai gweithgareddau a chyfleusterau yn rhan o dyfu i fyny;
- bod cyfran uwch o ymatebwyr Cyfnod Sylfaen nag ymatebwyr heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn meddwl fod plant yn gweld trosglwyddo yn haws na'u cyd-ddisgyblion o garfannau hŷn, **ond** ni allent wneud cysylltiad pendant rhwng cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a gwell trosglwyddo i ddisgyblion;
- bod ychydig yn unig o wahaniaethau mewn perthynas ag elfennau emosiynol-gymdeithasol trosglwyddo rhwng plant yn yr ysgolion Cyfnod Sylfaen a'r ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen;
- yr ymddengys fod y mecanweithiau gweithredol sy'n cefnogi trosglwyddo llwyddiannus yn eu lle mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen ac mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen **ond** roedd graddau eu gweithredu a pha mor effeithiol y'u gwelwyd yn amrywio.

- 3.1 Awgryma casgliadau'r arolwg bod ymarferwyr ym mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd o'r farn bod plant yn gweld addasu i ddisgwyliadau eu hamgylchedd newydd yn gymharol hawdd. Mae ymarferwyr mewn ysgolion astudiaeth achos Cyfnod Sylfaen ac ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn rhannu'r farn hon. Yn wir, roedd ymarferwyr yn dueddol o feddwl bod rhieni/gofalwyr yn fwy pryderus am y trosglwyddiad na'u plant.
- 3.2 Roedd yn eithaf amlwg, fodd bynnag, fod mwy o ymatebwyr Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 ar gyfartaledd nag ymatebwyr Cyfnod Allweddol 2 yn dueddol o fod yn optimistaidd eu barn ynghylch canlyniadau wedi trosglwyddo. Nid oedd yr holl ymatebwyr yn bendant fod plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2,

gyda dwy ran o bump o holl ymatebwyr yr arolwg yn awgrymu y gellid gwella'r paratoi. Yn wir, roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen lle roedd llai o ymatebwyr Cyfnod Allweddol 2 yn ffyddiog ynghylch lefel y paratoi ar gyfer trosglwyddo na'u cymheiriaid yn y Cyfnod Sylfaen.

- 3.3 Roedd barn yn rhanedig hefyd ynghylch p'un a oedd plant yn ei gweld yn haws neu'n anos na chyd-ddisgyblion blaenorol i setlo yn eu dosbarthiadau newydd, er bod cyfran uwch o holl ymatebwyr yr arolwg o ysgolion Cyfnod Sylfaen (ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar fel ei gilydd) na'r rhai o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn dueddol o feddwl bod plant yn gweld y trosglwyddo'n llai anodd na'u cyd-ddisgyblion hŷn. Teimlid bod rhieni yn fwy effro i faterion yn codi o'r trosglwyddo nag mewn blynyddoedd blaenorol, yn bennaf oherwydd eu bod bellach yn fwy ymwybodol fod y plant yn mynd trwy drosglwyddiad.
- 3.4 Ni allai ymarferwyr yn yr ysgolion astudiaeth achos Cyfnod Sylfaen wneud cysylltiad pendant rhwng cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a throsglwyddo gwell i ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn nifer bach o achosion, roedd cyfweleion o'r farn bod plant yn fwy hyderus o ganlyniad i fod wedi cael eu haddysgu trwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Felly roeddent yn gallu ymdopi â'r trosglwyddo rhwng y cyfnodau allweddol yn well. Nododd ymarferwyr mewn un ysgol y bu llai o broblemau ymddygiad ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (er bod mwyafrif ymatebwyr yr arolwg yn dueddol o feddwl fel arall – gweler isod) gan awgrymu bod ymddygiad gwell yn hwyluso trosglwyddiad positif i blant.
- 3.5 Yn amlwg, nid yw'r mater hwn, sef ansawdd trosglwyddo, yn fater syml. Awgryma casgliadau'r arolwg fod angen archwilio pam fod ymarferwyr o'r farn bod plant sydd wedi bod trwy'r Cyfnod Sylfaen o bosibl yn gweld trosglwyddo'n haws, er eu bod yn symud i fodel cwricwlwm gwahanol iawn a gellid disgwyl y byddent yn gweld y trosglwyddo'n anodd. Beth, os unrhyw beth, sy'n gwneud y trosglwyddo hynny'n haws a pham bod trosglwyddo mewn rhai ysgolion yn ymddangos fel petai'n gweithio'n fwy effeithiol nag mewn ysgolion eraill? Un cwestiwn sydd angen mynd i'r afael

ag ef, yn arbennig, yw pa agweddau ar baratoi y mae angen eu gwella er mwyn cyfoethogi'r broses i bob disgybl.

3.6 Mewn adolygiad diweddar o'r trosglwyddiad rhwng cyfnodau allweddol, awgrymodd Evans *et al* (2010) fod llenyddiaeth ymchwil yn y maes hwn yn trafod materion mewn perthynas â dwy brif agwedd: ffactorau emosiynol-gymdeithasol a ffactorau trefniadol.

- Mae **ffactorau emosiynol-gymdeithasol** yn cyfeirio'n arbennig at ffactorau sy'n peri i blant fod yn bryderus am y broses drawsnewid. Ymhlith y materion sy'n disgyn i'r categori hwn mae addasu i grwpiau cyfoedion ac athrawon newydd, cwricwlwm newydd a disgwyliadau academaidd. Maent i gyd wedi'u harchwilio mewn nifer o astudiaethau ac adolygiadau systematig blaenorol o lenyddiaeth, gan gynnwys Galton *et al* (2003), Sanders *et al* (2005), Merry (2007), Evangelou *et al* (2008), a Shields (2009).
- Mae **ffactorau trefniadol** yn ymwneud ag arfer oddi mewn (ac ar draws) sefydliadau ac yn cynnwys materion yn ymwneud â gweithio ar y cyd a rhannu arfer, cefnogaeth a chynghor ar gyfer trosglwyddo ac, o ddiddordeb arbennig i ni mewn perthynas ag archwilio trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen, dilyniant y cwricwlwm. Pe bai yna fethiannau mewn cefnogaeth drefniadol, ni fydd manteisio ar y sgiliau dysgu annibynnol a ddatblygwyd yn y Cyfnod Sylfaen yn dilyn trosglwyddo i ddysgu mwy ffurfiol yng Nghyfnod Allweddol 2.

3.7 Mae'r ddwy ffactor hon yn rhoi strwythur cyffredinol defnyddiol i edrych ar y casgliadau a ddaeth o ymatebion yr arolwg a'r cyfweiliadau gydag ymarferwyr a disgyblion yn y 14 o ysgolion astudiaeth achos.

Ffactorau emosiynol-gymdeithasol

3.8 Awgrymodd dros hanner ymatebwyr yr arolwg (penaethiaid ac ymarferwyr) nad oedd ffactorau emosiynol-gymdeithasol yn rhwystr sylweddol i drosglwyddo'n llwyddiannus yn eu hysgol. Roedd mwyafrif cyfweleion yr astudiaethau achos mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen ac ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn cytuno â hyn. Yn gyffredinol, ystyrid bod plant wedi ei

chanfod yn hawdd setlo i mewn gyda chyd-ddisgyblion newydd ac addasu i ymarferwyr newydd, er enghraifft, tra roedd plant Blwyddyn 2 eu hunain yn ymddangos wedi'u cyffroi wrth feddwl am wneud ffrindiau newydd, am gael cyfleoedd newydd a hyd yn oed am gael athrawon newydd yn eu haddysgu.

- 3.9 Roedd y plant yn bendant yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau cadarnhaol y trosglwyddo. Roedd mwyafrif y rheiny a gyfwelwyd yn gweld symud i fyny i Flwyddyn 3 ac i ffwrdd o'r ysgol fabanod yn gam mawr, ac yn gam a oedd yn eu cyffroi yn hytrach nag yn eu pryderu. Fel y dywedodd un: *"Byddwn ni'n gweithio mwy ac yn dysgu mwy."* Roedd plant yn rhannu'r farn hon, p'un a oeddent yn mynychu ysgolion Cyfnod Sylfaen neu ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen. Ochr yn ochr â hyn, nid oedd gwahaniaethau o bwys rhwng plant a oedd yn mynychu ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen a'r rheiny a oedd yn mynychu ysgolion Cyfnod Sylfaen o ran eu disgwyliadau am y dyfodol neu'r profiadau trosglwyddo y gwnaethant eu nodi.



3.10 Daeth mwyafrif y sylwadau negyddol (sydd wedi'u casglu ynghyd o dan yr wyneb 'trist' yn y drydedd golofn yn yr esiampl o ysgol a welir yma) gan

blant Blwyddyn 3 mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen. Roeddent yn edrych yn ôl ar y gwahaniaethau rhwng Blwyddyn 3 a Blwyddyn 2. Roedd mwyafrif eu sylwadau'n ymwneud â phethau yr oeddent yn gweld eu colli, yn enwedig gweithgareddau awyr agored ac



anifeiliaid anwes (e.e. *“Dydyddyn ni ddim yn mynd i lawr i'r fferm cymaint â phlant Blwyddyn 2 a does gynnwys ni ddim cywion bach”*), teithiau ysgol a gweithgareddau creadigol (gan gynnwys canfyddiad o ddiffyg sticeri). Roeddent yn dueddol o amlygu pynciau nad oeddent yn eu mwynhau (er bod y rhain yn amrywio rhwng grwpiau) ac yn gresynu bod cyn lleied o amser chwarae bellach o'i gymharu â sut oedd pethau ym Blwyddyn 2 (er bod hyn i raddau hefyd yn adlewyrchu eu canfyddiad mai chwarae'n unig oedd llawer o'r gweithgareddau dysgu y buont yn cymryd rhan ynddynt yn ystod Blwyddyn 2). Er bod plant yn nodi'r gwahaniaethau hyn fel y rhan yr oeddent yn ei 'hoffi leiaf' yn y trosglwyddo, nid oedd yn ymddangos eu bod yn poeni'n ormodol amdanynt, gan weld colli rhai gweithgareddau a chyfleusterau fel rhan o dyfu i fyny.

3.11 O ran plant Blwyddyn 2 a oedd yn edrych ymlaen at symud i Flwyddyn 3, ymddengys mai ychydig iawn o newidiadau posibl oedd yn poeni'r plant, er bod rhai ohonynt yn mynegi peth pryder ynghylch y trosglwyddo: roedd rhai *“ychydig yn nerfus”* neu'n dweud *“dydw i ddim eisiau iddo newid gormod”*. Roedd nifer fach yn pryderu y byddai ganddynt athro gwahanol a byddent yn gweld colli eu hathro presennol. Roedd ysgolion yn cydnabod y pryder hwn ac yn cynnal 'diwrnodau symud i fyny' i alluogi plant i dreulio amser gyda'u hathro newydd yn rhymor yr haf cyn y flwyddyn academiaidd newydd. Mewn un ysgol, byddai plant unigol yn treulio dwy awr yr wythnos yn eu dosbarth Cyfnod Allweddol 2 er mwyn dod i arfer â threfn y diwrnod a'r disgwyliadau o ran eu hymddygiad a'u gweithgarwch.

3.12 Roedd eraill yn poeni am y plant hŷn a mwy y byddent yn eu cyfarfod yn yr ysgol iau (roedd hon ar safle gwahanol i rai) ac roedd ambell un yn poeni am y gwaith caletach y byddai'n rhaid iddynt ei wneud. Roedd staff hefyd yn cydnabod pryderon plant am ddisgwyliadau academiaidd ac roedd rhai yn amlygu ffactorau emosiynol-gymdeithasol a oedd yn pryderu eu disgyblion, gan gynnwys:

- disgwyliadau newydd o ran dysgu (roedd 10 allan o 71 o ymarferwyr ac 8 allan o 43 o benaethiaid yn teimlo bod y rhain yn bethau anodd i'r plant addasu iddynt);
- disgwyliadau newydd o ran gwaith cartref (dywedodd 9 allan o 71 o ymarferwyr a 9 allan o 43 o benaethiaid eu bod yn teimlo bod plant yn poeni am hyn);
- addasu i ddisgwyliadau o ran ymddygiad (roedd 8 allan o 71 o ymarferwyr a 6 allan o 43 o benaethiaid o'r farn y byddai plant yn gweld y rhain yn heriol).

3.13 Yr hyn sy'n ddiddorol, fodd bynnag, yw bod llai o ymatebwyr o ysgolion Cyfnod Sylfaen ar gyfartaledd nag o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen o'r farn fod plant sydd bellach ym Mlwyddyn 3 neu Flwyddyn 4 wedi brwydro i addasu i ddisgwyliadau academiaidd (er bod yr ysgolion dechrau'n gynnar, gyda llai o brofiad o ran y trosglwyddo, yn llai cadarnhaol o ran y mater hwn na'r ysgolion peilot). Roedd mwy o'r ymatebwyr Cyfnod Sylfaen o'r farn bod plant yn ei chael yn anodd o ran disgwyliadau ynghylch ymddygiad (mewn gwrthgyferbyniad i'r un ysgol astudiaeth achos lle roedd staff o'r farn bod ymddygiad wedi gwella – gweler uchod). Roedd nifer o'r staff Cyfnod Allweddol 2 y gwnaethom eu cyfweld yn rhannu'r farn hon, gan ddweud eu bod wedi'i chael yn anodd yn wreiddiol gyda phlant a oedd i'w gweld yn ei chael yn anodd aros mewn un man am unrhyw gyfnod o amser.

3.14 Awgryma'r casgliadau mai ychydig yn unig o wahaniaethau sy'n bodoli mewn perthynas ag elfennau emosiynol-gymdeithasol trosglwyddo rhwng plant yn yr ysgolion Cyfnod Sylfaen a'r ysgolion heb fod yn Gyfnod

Sylfaen. Ar y cyfan mae'n ymddangos bod ysgolion wedi bod yn effeithiol i'r un graddau wrth baratoi plant at symud o'r adran babanod i iau neu o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3, p'un a yw'r ysgol yn dilyn y cwricwlwm traddodiadol neu'n rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod cefnogi lles emosiynol plant trwy'r trosglwyddo wedi bod yn ffocws cryn sylw mewn blynyddoedd diweddar. Mae'n awgrymu, fodd bynnag, nad oes angen i gynorthwyo â'r agwedd hon o drosglwyddo fod wrth galon deunyddiau canllaw y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol oherwydd bod ysgolion eisoes yn gwneud cynnydd yn y maes hwn.

Ffactorau trefniadol


3.15 Yr hyn sy'n amlwg o lawer o ymchwil blaenorol, fodd bynnag, yw na aed i'r afael â rhai elfennau o gefnogaeth drefniadol ar gyfer trosglwyddo cystal â'r ffactorau emosiynol-gymdeithasol bob tro, boed yn nhermau materion strwythurol (staff yn ei chael yn anodd gweithio ar draws cyfnodau, er enghraifft) neu faterion cwricwlwm (yn enwedig mewn perthynas â sicrhau dilyniant a symud ymlaen). Mae ymchwil yn awgrymu yr ymddengys y strategaethau mwyaf effeithiol fel petaent yn troi o amgylch:

- addasu dulliau addysgu i wneud y trosglwyddo'n haws (Siraj-Blatchford *et al* 2002);
- ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd ar draws gwahanol gyfnodau addysg (Rose 2009, Evans *et al* 2010);
- darparu cefnogaeth ychwanegol i blant sy'n ei chael yn fwy anodd i addasu (Saunders *et al* 2005, Evans *et al* 2010).

3.16 O dystiolaeth yr arolwg a'r astudiaethau achos, ymddengys fod y mecanweithiau hyn yn eu lle mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen ac mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen ond roedd graddau eu gweithredu a pha mor effeithiol y'u gwelwyd yn amrywio (gweler Ffigur 3-1). Roedd ymatebwyr Cyfnod Sylfaen a'r rheiny heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn tueddu i gytuno ar effeithiolrwydd addasu eu harddulliau addysgu ond roedd cyfartaledd is o ymatebwyr mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn dweud bod y strategaeth hon yn cael ei defnyddio yn eu hysgol. Mae'n

debygol bod hyn oherwydd na welid y trosglwyddiad i Gyfnod Allweddol 2 fel mater brys yn eu hysgol hyd yma.

Ffigur 3-1: Effeithiolrwydd canfyddedig strategaethau i gynorthwyo trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2




3.17 Ar ben hynny, cytunodd 67 o'r 71 o ymatebwyr a oedd yn ymarferwyr (30 ohonynt yn cytuno'n gryf) eu bod wedi newid y ffordd roeddent yn addysgu dros y tair blynedd ddiwethaf. Roeddent yn dweud mai'r angen i adlewyrchu newidiadau yn sgiliau a gwybodaeth y plant (60 o ymatebwyr) ac i gynorthwyo plant i addasu'n haws i wahanol ystafelloedd dosbarth ac ymarferwyr (49 o ymatebwyr) oedd yn eu hysgogi. Roedd nifer o themâu cyffredin a redai trwy'r newidiadau yn y dull addysgu. Ymhlith y rhain yr oedd:

- mabwysiadu dull addysgu mwy ymarferol, gan ddefnyddio mwy ar yr awyr agored a bod â dull dysgu mwy gweithredol;
- mabwysiadu mwy o waith grŵp, gyda dysgu trwy sesiynau grŵp, cylchdroi gwersi a dysgu gan gyfoedion;
- mabwysiadu dull lle mae plentyn yn cychwyn ac yn arwain, yn enwedig mewn ysgolion dechrau'n gynnar ac ysgolion peilot gyda "bachau ac ysgogiad i ennyn diddordeb y plant."

3.18 Ni welwyd unrhyw wahaniaethau rhwng ysgolion Cyfnod Sylfaen ac ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen i'r graddau yr oeddent yn adrodd ar eu gallu i arsylwi arfer ei gilydd, siarad ag athrawon mewn grwpiau blwyddyn eraill neu rannu adnoddau, ond roedd gwahaniaethau amlwg yn y graddau y byddai ymarferwyr Cyfnod Sylfaen (yn enwedig mewn ysgolion peilot) yn teimlo y gallent gydweithio ag eraill. Awgryma'r ymatebion fod cydweithio'n ymddangos yn haws mewn ysgolion peilot. Roedd y mwyafrif (21) o'r 25 o ymarferwyr ysgolion peilot Cyfnod Sylfaen yn ei gweld yn 'hawdd iawn' cydweithio gydag eraill o'u cymharu ag ychydig yn fwy na hanner yr ymatebwyr dechrau'n gynnar (10 o'r 18) a'r ymatebwyr heb fod yn Gyfnod Sylfaen (14 o'r 25) a atebodd yn yr un ffordd.

Ffigur 3-2: Cyfathrebu rhwng ymarferwyr



Ffynhonnell: Arolwg ysgolion SQW N=71

3.19 Yn olaf, ymddengys at ei gilydd fod dulliau cyfathrebu rhwng ymarferwyr yn weddol dda. Un yn unig o'r 71 o ymarferwyr a wnaeth ymateb a ddywedodd 'nad oedd yn hawdd iawn' siarad gydag ymarferwyr mewn grwpiau blwyddyn eraill.

Casgliad

3.20 Wrth archwilio'r ffactorau sy'n ymddangos fel pe baent wedi hwyluso newid arfer a chydweithredu a chyfathrebu gwell, gwnaethom nodi pum prif ddylanwad, wedi'u grwpio o amgylch y graddau y mae ymarferwyr ar draws y cyfnodau yn rhannu athroniaethau, dealltwriaeth o'r cwricwlwm, arfer yn yr ystafell ddosbarth, strategaethau cyfathrebu a bodlonrwydd i gymryd risgiau ac arbrofi. Byddwn yn archwilio pob un o'r rhain ymhellach ym Mhennod 4.

4 Hwyluso trosglwyddo

Crynodeb

Awgryma canfyddiadau o'r astudiaethau achos fod cyfweleion yn credu'r canlynol:

- bod cymorth cryf o ran uwch arweinyddiaeth yn hanfodol i weithredu athroniaeth a rennir yn llwyddiannus ynglŷn â dull y Cyfnod Sylfaen at addysgu a dysgu;
- lle roedd gan athrawon Cyfnod Allweddol 2 fwy o ddealltwriaeth o ddull y Cyfnod Sylfaen, roedd mwy ohonynt yn gwneud addasiadau priodol i'w harferion addysgu i hwyluso trosglwyddo i'r disgyblion;
- roedd mabwysiadu arferion cyffredin ar draws cyfnodau, gan gynnwys newidiadau strwythurol (yn ymwneud ag amserlennu a threfniadaeth yr ystafell ddosbarth) ac agweddau tebyg at weithgareddau dysgu a datblygu sgiliau yn gymorth i'r disgyblion drosglwyddo;
- roedd cyfathrebu da ar draws y cyfnodau yn hanfodol, o ran cynorthwyo'r trosglwyddo i ddisgyblion ac o ran gwneud yn siŵr fod y disgyblion yn bodloni disgwyliadau athrawon Cyfnod Allweddol 2;
- roedd amgylchedd myfyriol lle gallai ymarferwyr ac athrawon roi cynnig ar wahanol ddulliau heb ofni beirniadaeth yn ddefnyddiol wrth ddatblygu arfer da.

- 4.1 Daeth y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn y bennod hon i'r amlwg yn ystod ymweliadau'r **astudiaethau achos**. Amlygodd y cyfweiliadau gyda phenaethiaid ac ymarferwyr (athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth), yn arbennig, y rôl sylweddol a chwaraeid gan arweinwyr ysgolion unigol i hyrwyddo'r ethos a'r diwylliant y gallai newid yn y cwricwlwm ac arfer effeithiol ddigwydd o'u mewn. Roedd cyfweleion hefyd yn cydnabod rôl dylanwadau allanol, megis cyflwyno Asesiad ar gyfer Dysgu (a oedd yn hwyluso'r gwaith o fonitro dilyniant) a chyflwyno cwricwlwm 2008 Cyfnod Allweddol 2⁸ a'i ymagwedd thematig at addysgu a dysgu, a ddefnyddiwyd gan rai ysgolion fel yr ysgogiad i gyflwyno ymagwedd thematig at ddysgu ar draws pob un o'r cyfnodau.

⁸ Mae 'Manteisio i'r eithaf ddysgu – gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008) yn rhoi canllawiau ynghylch y ffordd orau o weithredu'r cwricwlwm diwygiedig o Fedi 2008 ymlaen. Gellir canfod y canllawiau yn: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/makingthemostoflearningnc/?jsessionid=LrZSMnCGRvpyf3zRlq2JJ3Bhb16BJ2R9nnsnyn42XKyZQN3LrRzQ!320120316?lang=en>

Y newid mwyaf yw ymagwedd wahanol at y cwricwlwm, onid e? Ond dylai hynny leihau gyda chyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghyfnod Allweddol 2. Dylai hynny gael gwared ar rai o'r problemau. (Pennaeth)

Datblygu athroniaeth a rennir

- 4.2 Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion, ar draws ysgolion y Cyfnod Sylfaen a heb fod yn Gyfnod Sylfaen, yn cefnogi'r dull cwricwlwm a gefnogir gan y Cyfnod Sylfaen ac yn teimlo ei fod yn cyd-fynd â'r athroniaethau oedd yn bodoli'n barod yn eu hysgolion.

Mae'r ysgol bob amser wedi bod yn ysgol sy'n seiliedig ar ddysgu gweithredol o fewn cwricwlwm cenedlaethol Cyfnod Allweddol 1 beth bynnag, oherwydd roedd gan yr athrawon oedd yn bresennol yn y dosbarth yr athroniaeth a'r gred mai hon oedd y ffordd orau i blant ddysgu. (Athrawes Cyfnod Sylfaen)

- 4.3 Roedd cefnogaeth frwdfrydig i ddefnyddio arddulliau addysgu a dysgu newydd ymysg y rhan fwyaf o'r cyfweleion. Wedi dweud hynny, roedd rhywfaint o amheuaeth, yn arbennig ymysg athrawon Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen. Mynegodd rhai o ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen bryder hefyd nad oedd y cwricwlwm seiliedig ar chwarae yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu sgiliau sylfaenol i'r un graddau â dulliau mwy traddodiadol, a theimlent fod y lleihad mewn addysgu mwy ffurfiol yn y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith ar gyrraedd y sgiliau angenrheidiol, er enghraifft llythrennedd a rhifedd.

Y maes rwyf wedi canfod sydd wedi datblygu leiaf yw eu gwaith rhif, eu mathemateg, ac mae hwnnw'n faes lle mae'n rhaid iddo gael ei ddysgu'n ffurfiol. (Athrawes Cyfnod Allweddol 2)

- 4.4 Roedd athrawon Cyfnod Allweddol 2 eraill yn anghytuno. Fel y dywedodd un, roedd barn negyddol o'r fath am sgiliau'r disgyblion yn golygu:

...maent yn camddeall, maent yn camddeall - oherwydd yn y gorffennol efallai y byddech yn cael plant yn cynhyrchu un neu ddwy dudalen o ysgrifennu, ond pe baech yn edrych arno i gyd yn

fanylach, byddech yn canfod yn fuan nad oeddent yn gwneud fawr mwy na chopïo'r hyn yr oedd yr athrawes wedi bod yn ei wneud. Mae'n edrych yn daclus ac yn gwneud argraff dda, ond nid yw dyfnder y ddealltwriaeth a dyfnder y dysgu yno. (Athro Cyfnod Allweddol 2)

- 4.5 Teimlai cyfweleion (yn arbennig penaethiaid) fod gwrthwynebiad yn deillio'n bennaf o ddiffyg dealltwriaeth am y Cyfnod Sylfaen a soniwyd bod y pryderon yn cael eu lliniaru'n gyffredinol drwy hyfforddiant a phrofiad.

Mae'n debygol y bydd llai o wrthwynebiad gan y staff os ydynt yn gwybod beth yw'r Cyfnod Sylfaen. Dyna pam yr ydym wedi ceisio rhoi'r un neges i'r holl staff am beth yw'r Cyfnod Sylfaen, dyma sut mae'n cael ei weithredu a dyma pam yr ydym yn ei wneud. (Pennaeth)

- 4.6 Roedd ysgolion wedi mabwysiadu gwahanol ymagweddau at gynhyrchu athroniaeth a rennir a hyrwyddo'r defnydd o elfennau addysgu'r Cyfnod Sylfaen mewn ystafelloedd dosbarth Cyfnod Allweddol 2. Roedd rhai yn canolbwyntio eu hymdrechion ar athrawon Cyfnod Allweddol 2 yn uniongyrchol, naill ai drwy weithgareddau hyfforddi penodol neu drwy raglenni cysgodi. Roedd eraill yn canolbwyntio ar lywodraethwyr ysgol fel dull o liniaru eu pryderon ac o greu cefnogwyr brwd i'r dull hwn gydag athrawon Cyfnod Allweddol 2. Mae'r canlynol yn rhoi enghreifftiau o rai o'r ffyrdd yr oedd uwch reolwyr mewn ysgolion yn ceisio codi ymwybyddiaeth am fanteision a chanlyniadau dull y Cyfnod Sylfaen.

Athroniaeth a rennir, addysgu llywodraethwyr...

Mewn un ysgol babanod dechrau'n gynnar, dywedodd y pennaeth fod athrawon Cyfnod Allweddol 2 yn yr ysgol iau y byddai'r plant yn symud iddi ar y dechrau yn bryderus am sut y byddai'r Cyfnod Sylfaen seiliedig ar chwarae yn effeithio cyrhaeddiad o ran sgiliau sylfaenol. Er mwyn ymdrin â'r pryder hwn ac i hwyluso dealltwriaeth ac athroniaeth a rennir gyda'r ysgol iau, dechreuodd y pennaeth ar raglen addysgol i'r llywodraethwyr.

Ceisiodd y rhaglen oleuo llywodraethwyr yr ysgol babanod, yr oedd llawer ohonynt hefyd yn aelodau o gorff llywodraethol yr ysgol iau, am y Cyfnod Sylfaen – ei ethos a'i ddull a sut roedd pethau yn gweithio'n ymarferol. Rhoddodd pennaeth yr ysgol babanod gyflwyniad i lywodraethwyr yr ysgol am y Cyfnod Sylfaen ac yna gwahoddwyd llywodraethwyr i arsylwi dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen 'ar waith'. Yna trosglwyddwyd eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r Cyfnod Sylfaen i athrawon Cyfnod Allweddol 2 yn yr ysgol iau, gan liniaru rhai o'u hofnau a'u pryderon.

Athroniaeth a rennir, addysgu athrawon...

Mewn un ysgol beilot, roedd y Cyfnod Sylfaen a'i athrawiaethau wedi'u croesawu a'u cofleidio gan y pennaeth ac ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Er hynny, roedd athrawon Cyfnod Allweddol 2, oedd yn croesawu'r Cyfnod Sylfaen mewn egwyddor, yn bryderus efallai na fyddai'r dull hwn yn sicrhau bod y plant yn cael y set lawn o sgiliau sylfaenol.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ac i sicrhau cysondeb athrawiaethol ar draws yr ysgol, mabwysiadodd y pennaeth raglen hyfforddiant mewnol yr ysgol i adlewyrchu arferion y Cyfnod Sylfaen yn well. Roedd addasiadau o'r fath yn golygu rhoi amser i athrawon Cyfnod Allweddol 2 arsylwi ac addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Ystyrid mai darparu hyfforddiant ac addysg oedd y dull mwyaf effeithiol o herio canfyddiadau negyddol ynghylch y Cyfnod Sylfaen.

- 4.7 Nid yw sicrhau athroniaeth a rennir yn dod heb gost. Mae darparu hyfforddiant, neu sefydlu rhaglen gysgodi ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2 (fel y cynlluniwyd mewn un ysgol babanod, er enghraifft) yn golygu costau o ran amser a chyflenwi. Roedd nifer o ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy yn rhagweld y byddai'n anodd dod o hyd i'r arian i gyllido hyn o fewn y cyllidebau presennol. Dywedodd eraill nad oedd yn hawdd (na hyd yn oed yn bosibl) i gefnogi arferion y Cyfnod Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 2, oherwydd nad oedd cyllidebau ysgol yn talu am lefel y cymorth (gan gynorthwywyr addysgu ac eraill) neu'r ad-drefnu ffisegol oedd ei angen i roi arferion y Cyfnod Sylfaen ar waith gyda grwpiau mwy o blant.

Hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

- 4.8 Roedd mwyafrif y cyfweleion yn yr ysgolion astudiaeth achos yn cydnabod bod angen i ymarferwyr fod â dealltwriaeth drwyadl, nid yn unig o'r rhesymeg oedd yn sail i'r Cyfnod Sylfaen, ond hefyd o agweddau eu cydweithwyr at y cwricwlwm a'r strategaethau addysgu a dysgu yr oeddent yn eu defnyddio er mwyn hwyluso trosglwyddiad llyfn i'r plant.
- 4.9 Roedd ysgolion yn cydnabod bod angen i athrawon Cyfnod Allweddol 2 ddeall y math o ddulliau addysgu a dysgu yr oedd plant wedi eu profi yn y Cyfnod Sylfaen, a'r gwahanol sgiliau a chryfderau yr oeddent yn debygol o'u meddu. Roedd rhai yn gwneud hyn drwy edrych ar gynlluniau gwersi a darparu cyfleoedd ar gyfer arsylwi yn yr ystafell ddosbarth (neu yn yr awyr agored), gan efelychu'r gweithgareddau a nodwyd yn Lloegr yn adroddiad Rose (2009). Roedd un ysgol, yn arbennig, wedi mabwysiadu dull mwy chwyldroadol ac wedi hyfforddi'r staff i gyd yn null y Cyfnod Sylfaen, ac a oedd wedyn yn galluogi ymarferwyr/athrawon i ddilyn eu disgyblion i Gyfnod Allweddol 2 (arfer sy'n cael ei fabwysiadu ar hyn o bryd gan ddim ond lleiafrif o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg). Ystyrient fod y dull hwn yn ganolog i lwyddiant y Cyfnod Sylfaen yn eu hysgol.

Mae'n fwy o symudiad ar draws yr ysgol, yn hytrach nag i fyny neu i lawr y blynyddoedd. (Pennaeth)

- 4.10 Lle roedd gan athrawon Cyfnod Allweddol 2 fwy o ddealltwriaeth o ddull y Cyfnod Sylfaen, mae'n ymddangos fod mwy ohonynt yn gwneud addasiadau priodol i'w harferion addysgu. Yn wir, dywedodd un athrawes Cyfnod Allweddol 2 (mewn ysgol heb fod yn Gyfnod Sylfaen) fod hyfforddiant Cyfnod Sylfaen wedi ei helpu i ymlacio ynghylch nifer o agweddau o'i haddysgu, fel cofnodi gwaith plant yn ffurfiol. Credai ei bod bellach yn gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau dysgu gweithredol ac addysgu a dysgu seiliedig ar destunau. Mewn ysgol arall, roedd mwy o ymwybyddiaeth am gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at i un athro Cyfnod Allweddol 2 ddefnyddio testunau oedd yn cyd-fynd yn agosach â'r rhai hynny yr ymdriniwyd â hwy gan y plant yn y Cyfnod Sylfaen, gan

sicrhau parhad ond osgoi ailadrodd. Yn fwy eang, roedd ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn rhagweld y byddent yn cyflwyno mwy o waith prosiect a gwaith thematig tra byddent yn cadw dulliau addysgu ffurfiol wrth i'r Cyfnod Sylfaen gael ei gyflwyno.

- 4.11 Mewn ysgolion eraill, fodd bynnag, credid bod diffyg hyfforddiant a chanllawiau ac adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi cyfyngu ar ddatblygu dealltwriaeth o'r cwricwlwm i athrawon Cyfnod Allweddol 2.

Dydw i ddim wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw beth i'w wneud â'r Cyfnod Sylfaen, tameidiau ohono'n unig yr ydw i wedi cael gafael arnynt. Pan oedd gennyf blant y Cyfnod Sylfaen yn fy nosbarth fe wnes yr hyn a gredwn oedd addysgu'r Cyfnod Sylfaen, ond doeddwn i ddim yn siŵr. Beth bynnag oedd gweddill y dosbarth yn ei wneud roeddwn yn addasu hynny i sefyllfa mwy ymarferol a chreadigol i'r plant hynny.
(Athro Cyfnod Allweddol 2)

- 4.12 I grynhoi, er bod staff Cyfnod Allweddol 2 eisoes wedi gwneud newidiadau i'w haddysgu, neu wedi rhagweld y byddent yn gwneud addasiadau i'w haddysgu, teimlai rhai ysgolion fod arnynt angen mwy o gyngor a chanllawiau ynglŷn â sut i wneud hynny. Yn arbennig, tynnodd staff mewn un ysgol sylw at yr heriau o ddehongli canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a'u cysoni gyda dulliau asesu Cyfnod Allweddol 2 a theimlent fod angen mwy o wybodaeth a hyfforddiant ynglŷn â hyn.

- 4.13 Dylid cydnabod nad yw'r heriau i gyd yn rhai sy'n mynd i un cyfeiriad er hynny. Cydnabyddid yn gyffredinol bod angen i athrawon yn y Cyfnod Sylfaen hefyd fod yn ymwybodol o'r cwricwlwm yr oeddent yn paratoi plant ar ei gyfer er mwyn trosglwyddo ym Mlwyddyn 3. Yn wir, credai rhai ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 y dylai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen addasu'r arddull addysgu i fod yn fwy tebyg i Gyfnod Allweddol 2 yn ystod tymor haf terfynol y Cyfnod Sylfaen, fel bod y disgyblion wedi arfer mwy ag ef pan oeddent yn symud i Flwyddyn 3.

- 4.14 Nid oedd hon yn farn gyffredin ond mewn nifer o ysgolion, roedd athrawon y Cyfnod Sylfaen er hynny yn cydnabod bod angen i blant gyrraedd lefel arbennig erbyn diwedd Blwyddyn 2, er mwyn iddynt fod wedi eu paratoi'n ddigonol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (ac ar gyfer y cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 newydd 2008). Crynhodd un athrawes Cyfnod Sylfaen mewn un ysgol beilot y broblem yr oedd llawer yn ei hwynebu o ganlyniad:

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ymwneud ag addysgu ar lefel a cham datblygu'r plentyn ei hun, yn hytrach nag oed, ond ar ddiwedd y dydd maent yn dal i orfod bod ar lefel arbennig erbyn diwedd Blwyddyn 2, yr ydych yn ymdrechu i'w cael yn barod ar ei chyfer. (Athrawes Cyfnod Sylfaen)

Mabwysiadu arferion cyffredin yr ystafell ddosbarth

- 4.15 Er mwyn hwyluso trosglwyddo, roedd nifer o ysgolion astudiaeth achos wedi mabwysiadu arferion cyffredin yn yr ystafell ddosbarth neu rhwng grwpiau blwyddyn. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys newidiadau strwythurol (yn ymwneud ag amserlennu a threfniadaeth yr ystafell ddosbarth), roedd eraill yn ymwneud â gweithgareddau a dulliau seiliedig ar sgiliau, gan adlewyrchu'r ffyrdd o weithio a'r setiau o sgiliau yr oedd plant yn eu dwyn gyda nhw o'r Cyfnod Sylfaen.
- 4.16 Roedd rhai ysgolion wedi cyflwyno amserlenni cyffredin, gydag arferion dyddiol tebyg, neu gydag elfennau ffurfiol ac anffurfiol o'r dydd, i gadw'r aflonyddu tybiedig a fyddai wrth drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 cyn lleied â phosibl. Roedd rhai eraill wedi mabwysiadu rhywfaint o gyfarpar trefniadaeth yr ystafell ddosbarth a ddefnyddid yn y Cyfnod Sylfaen (tablau gweithgaredd, ardaloedd dynodedig ar gyfer dysgu a chwarae, mannau yn yr awyr agored) i hwyluso datblygiad dysgwyr annibynnol ac i hwyluso dilyniant i Gyfnod Allweddol 2.

Pan ddechreuant gyda mi ym Mlwyddyn 3, rwyf wedi sefydlu ardaloedd tebyg i'r hyn sydd ganddynt yn y Cyfnod Sylfaen. Felly, mae gennyf ardal chwarae rôl, mae gennyf hambwrdd gyda thywod yno, bwrdd daearyddiaeth ac maent i gyd wedi'u cysylltu â'r hyn y

byddent wedi ei wneud yn y Cyfnod Sylfaen. (Athro Cyfnod Allweddol 2)

4.17 Nid oedd yr ysgolion i gyd wedi gallu gwneud newidiadau ffisegol, yn arbennig pan oedd dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen eisoes wedi symud i'r unig ystafelloedd dosbarth mawr gyda mynediad i ofodau awyr agored. Soniodd rhai cyfweleion am y gwrthgyferbyniadau yr oedd y plant wedi eu nodi a'r ffaith eu bod wedi mynegi eu siom gyda'u hystafelloedd dosbarth Cyfnod Allweddol 2 (fel ystafelloedd dosbarth llai, diffyg mynediad i'r awyr agored, llai o deganau ac adnoddau eraill). Roedd hyn yn adleisio sylwadau a gafwyd gan nifer o'r plant Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 a gyfwelwyd gennym yn ysgolion yr astudiaeth achos, oedd yn gofidio'n arbennig ynglŷn â'r nifer llai o anifeiliaid (neu hyd yn oed ddiffyg anifeiliaid) y gallent chwarae â nhw.

4.18 Ran amlaf, fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod athrawon yn addasu eu harferion ystafell ddosbarth, gan roi mwy o bwyslais ar drafodaeth ynglŷn â thestunau a'r graddau yr oedd dysgu a arweinid gan y plant yn cael ei gyflwyno.

Rydw i'n gweithio'n fwy ymarferol gyda'r plant fy hun mewn gwirionedd... byddwn yn siarad am y testun ac rwy'n tueddu i fwydo'r syniadau sy'n ymddangos i'r gwaith cynllunio beth bynnag. (Athro Cyfnod Allweddol 2)

4.19 Mewn rhai achosion, rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r pwyslais gwahanol yn y Cyfnod Sylfaen, a ddilynwyd drwodd i gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys ffocws cryfach ar ddatblygiad personol a chymdeithasol a dysgu.

4.20 Roedd y defnydd o ddulliau seiliedig ar thema a thestunau sy'n cyd-fynd â'r rhai hynny yr ymdrinnir â hwy gan blant yn y Cyfnod Sylfaen yn ganlyniad pellach i fwy o ymwybyddiaeth am y Cyfnod Sylfaen ymysg athrawon Cyfnod Allweddol 2. Cafodd y gwaith o sicrhau parhad ac osgoi gorgyffwrdd ei wneud drwy i'r athrawon gydweithio ar draws y ddau gyfnod ac wrth iddynt gydnabod bod cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 hefyd yn

newid. Fel y dywedodd y pennaeth mewn un ysgol: *'Mae cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 wedi newid...mae'n fwy ymchwiliadol...'*

4.21 Fodd bynnag, dywedid bod cyflwyno dulliau o'r fath wedi ei gyfyngu gan argaeledd staff cymorth, gyda rhai athrawon Cyfnod Allweddol 2 yn nodi na allent fabwysiadu ond dulliau addysgu a dysgu tebyg i'r rhai hynny a ddefnyddid yn y Cyfnod Sylfaen pan oedd ganddynt gymorth allanol (fel yr hyn a ddarperir gan swyddogion cefnogi'r awdurdod lleol) neu fynediad at fwy o gynorthwywyr addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Heb gymorth o'r fath, dywedid bod faint o waith grŵp annibynnol neu waith grŵp bach y gellir ei wneud yn gyfyngedig. Roedd y pryder ynglŷn â chymorth yn yr ystafell ddosbarth yn ymestyn i lawer o feysydd testun ymarferol gyda rhai athrawon Cyfnod Allweddol 2 yn mynegi amharodrwydd i ddefnyddio gweithgareddau ymarferol mewn gwyddoniaeth a meysydd pwnc ymarferol eraill, heb gefnogaeth cynorthwywyr ystafell ddosbarth, y teimlent oedd yn angenrheidiol i ddarparu dysgu ymarferol a gweithredol yn effeithiol ac yn ddiogel. Roedd un pennaeth, gan gydnabod y broblem hon, yn ystyried dargyfeirio cyllid i ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i'w galluogi i ddefnyddio mwy o gynorthwywyr addysgu.

4.22 Roedd ysgolion eraill wedi dechrau newid y ffyrdd yr oeddent yn ymdrin â gwahanol weithgareddau yng Nghyfnod Allweddol 2, er mwyn annog plant i fanteisio ar y sgiliau a'r galluoedd i ddatrys problemau yr oeddent wedi'u datblygu yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd un ysgol wedi cyflwyno dull 'Beth am Feddwl!' mewn mathemateg, lle'r roedd plant yn cael eu hannog i egluro eu prosesau meddwl, ac i ymchwilio i pam fod pethau yn mynd o'i le – yn hytrach na phryderu eu bod wedi ei gael yn anghywir. Roedd eraill yn defnyddio prosiectau mathemateg ac iaith oedd yn parhau o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, i sicrhau parhad a dilyniant o ran datblygu sgiliau.

Hwyluso cyfathrebu

4.23 Roedd cyfweleion yr astudiaeth achos, fel ymatebwyr yr arolwg, yn rhanedig ynghylch faint o gyfathrebu da ar draws cyfnodau ac o fewn cyfnodau oedd yn digwydd rhwng athrawon a chynorthwywyr ystafell

ddosbarth y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Roedd ymarferwyr yn pwysleisio'n aml bwysigrwydd cyfathrebu da ymysg y staff, o ran hwyluso trosglwyddo i ddisgyblion ac o ran sicrhau bod disgyblion yn mynd i Gyfnod Allweddol 2 gyda sgiliau sy'n bodloni disgwyliadau'r athrawon Cyfnod Allweddol 2.

4.24 Dywedid mai rhan o gyfathrebu da oedd y cyfle i fod yn agored ac yn onest am beth sydd wedi bod yn gweithio, beth sydd ddim wedi bod yn gweithio a beth sydd angen ail-edrych arno a'i ystyried eto. Lle roedd hyn wedi bod yn bosibl, pwysleisiodd ymarferwyr yr effaith gadarnhaol a gafodd hyn ar ddatblygu'r cwricwlwm. Awgrymodd cyfweleion fod cyfathrebu o'r fath yn hanfodol i lwyddiant y Cyfnod Sylfaen a'r trosglwyddo i'r plant.

4.25 Roedd strategaethau a ddefnyddid yn amrywio o gyfarfodydd staff llawn (gan sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r problemau) i gyfarfodydd cynllunio rhwng ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar bob lefel, i drafodaethau anffurfiol am eitemau penodol.

Rydym wedi ceisio gwneud datblygiad y plentyn yn stori gyflawn ac rydym yn rhannu disgwyliadau a chanlyniadau'r disgyblion yn barhaus rhwng holl aelodau'r staff. Y nod yw sicrhau bod y staff i gyd yn cael eu diweddarau'n barhaus gyda gwybodaeth, hyd yn oed am blant unigol. (Pennaeth)

4.26 Fodd bynnag, nodwyd rhwystrau i gyfathrebu da gan nifer o gyfweleion, gyda phrinder amser i athrawon Cyfnod Allweddol 2 yn derbyn y sylwadau mwyaf negyddol.

Gallem wneud ag amser i ffwrdd o'r dosbarth... i siarad â [athrawes Cyfnod Allweddol 2] am y plant y mae hi ar fin eu derbyn. Credaf y byddai hynny'n wirioneddol werthfawr'. (Athrawes Cyfnod Sylfaen)

4.27 Tra bo'r strwythur a'r model staffio ar gyfer y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn hwyluso cyfathrebu rhwng y staff, teimlwyd bod natur mwy ynysig ystafelloedd dosbarth Cyfnod Allweddol 2 a'r cymorth mwy cyfyngedig oedd ar gael gan gynorthwywyr addysgu yn atal y lefel o gyfathrebu y byddai rhai cyfweleion wedi ei hoffi. Teimlwyd bod

gan hyn yn ei dro oblygiadau negyddol ar gyfer trosglwyddo, gydag amser cyfyngedig i athrawon y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 drafod cryfderau a gwendidau plant a'r arfer gorau ym mhob achos i hybu eu dilyniant.

- 4.28 Nododd llai o ymarferwyr heb fod yn Gyfnod Sylfaen broblemau gyda chyfathrebu, efallai oherwydd nad yw'r trosglwyddo rhwng y ddau gyfnod mor amlwg. Ym mhob enghraifft lle roedd hynny'n codi, crybwyllwyd diffyg amser fel ffactor sylweddol.

Parodrwydd i gymryd risgiau: yr agwedd arbrofol at ddatblygu'r cwricwlwm

- 4.29 Dywedodd llawer o'r ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar eu bod wedi mabwysiadu agwedd 'profi a methu' at weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Teimlai llond llaw o'r ysgolion hyn eu bod wedi cymryd agwedd o'r fath oherwydd diffyg cymorth ymarferol a chanllawiau ac oherwydd y nifer cyfyngedig o ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar oedd ar gael i gysylltu â nhw. Wedi dweud hynny, roedd staff o'r farn fod agwedd o'r fath wedi bod yn ddefnyddiol ac yn rhoi hyder iddynt yn eu gallu eu hunain i greu cwricwlwm priodol (gan adlewyrchu, mewn llawer ffordd, athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ei hun).
- 4.30 Dywedwyd bod uwch aelodau staff mewn rhai o'r ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar wedi hybu amgylchedd myfyriol lle gallai ymarferwyr ac athrawon roi cynnig ar wahanol ddulliau a chynnal trafodaethau gonest ac agored am yr hyn oedd wedi gweithio a'r hyn nad oedd wedi gweithio (a pham) heb ofni beirniadaeth. Teimlai staff na fyddai dull profi a methu yn niweidiol i'r plant yr oeddent yn eu haddysgu, oherwydd bod popeth yr oeddent yn ei wneud yn cael ei fonitro a'i fesur.

Mabwysiadu dull profi a methu...

Mewn un ysgol dechrau'n gynnar, sefydlodd athrawon y Cyfnod Sylfaen y gwahanol ardaloedd darpariaeth mewn dwy ystafell ddosbarth ar wahân ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Canfuwyd yn fuan bod un ystafell ddosbarth yn rhy fach ar gyfer holl feysydd y Cyfnod Sylfaen a phenderfynwyd uno ac agor y ddwy ystafell ddosbarth a lledaenu'r meysydd darpariaeth rhyngddynt. Yna defnyddiodd y ddau ymarferydd yr ardal fwy hon ar gyfer addysgu eu dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen eu hunain ar sail rota.

Yn ychwanegol, amlygodd athrawon Cyfnod Allweddol 2 o'r ysgol plant iau yr oedd y plant yn symud iddi, ostyngiad yn safon sgiliau llawysgrifen plant Blwyddyn 3. Golygai'r berthynas onest ac agored a grëwyd rhwng y ddwy athrawes Cyfnod Sylfaen a'r athrawon Cyfnod Allweddol 2, y gellid codi'r mater hwn a gweithredu arno. Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen bellach yn gweithio i weithredu ymarferion a fydd yn datblygu llawysgrifen y plant i'r lefel angenrheidiol.

Canlyniadau annisgwyl

- 4.31 Wrth drafod gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, nododd y cyfweleion hefyd nifer o ganlyniadau nad oeddent wedi'u rhagweld yn wreiddiol. Yn arbennig, tynnodd nifer o athrawon y Cyfnod Sylfaen sylw at newid sylweddol yn eu rôl o fod yn athrawon ystafell ddosbarth i rôl oedd yn golygu mwy o reoli, gan benderfynu ar waith nifer o gynorthwyyr ystafell ddosbarth yn ogystal â strwythur a threfniadaeth eu hardal addysgu eu hunain (dan do ac yn yr awyr agored). Er bod rhai yn cofleidio'r rôl hon, roedd eraill yn ei chanfod yn fwy heriol, gan ddweud nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r gwaith yn effeithiol.
- 4.32 Tynnodd ymarferwyr eraill sylw at y teimlad yr oeddent wedi ei brofi o fod yn fwy o ran o 'dîm'. Er nad oedd llawer o ymarferwyr wedi dweud eu bod wedi derbyn cymorth mentora ffurfiol, roeddent yn teimlo'n llawer mwy abl i gael trafodaethau gydag athrawon a chynorthwyyr ystafell ddosbarth eraill yn yr ysgol (fel y nodwyd ym Mhennod 2) ac i ofyn am farn ymarferwyr yn eu cyfnod eu hunain yn ogystal â'r rhai hynny oedd yn gweithio mewn cyfnodau gwahanol. Mewn rhai enghreifftiau roedd hyn wedi arwain at gyfuno dosbarthiadau neu gydlynw gweithgareddau. Er nad oedd yr arbrofion hyn bob amser wedi llwyddo yn ystod y cyfnod hwn, roedd y cyfweleion yn parhau yn gadarnhaol ynghylch y posibiladau ar gyfer y dyfodol.

4.33 Roedd datblygiadau annisgwyl eraill a nododd y staff yn cynnwys newidiadau i ddiwylliant yr ysgol (gyda mwy o hyblygrwydd o ran staffio a mwy o statws i gynorthwyr ystafell ddosbarth), newidiadau mewn addysgeg (gyda mwy o allu i addasu eu cynlluniau addysgu i gyd-fynd â gweithgareddau'r dydd o amgylch digwyddiad arbennig, neu ddiddordeb plentyn).

Casgliad

4.34 Mae'n ymddangos bod trosglwyddo wedi ei gefnogi gan ffocws mwy agored ar rai o elfennau trefniadaethol y trosglwyddo - ffocws sydd yn aml wedi bod yn llai pwysig na'r pwyslais ar agweddau emosiynol-gymdeithasol mewn ymdrechion cynharach i wella dilyniant disgyblion drwy Gyfnodau Allweddol. Ystyrir bod cefnogaeth o ran arweinyddiaeth uwch yn hanfodol i weithredu'n llwyddiannus athroniaeth a rennir ynghylch dull y Cyfnod Sylfaen at addysgu a dysgu, tra bo hyfforddiant a gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth wedi hybu mwy o ddealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen, addasiadau i arferion addysgu, mabwysiadu arferion cyffredin ar draws cyfnodau, cyfathrebu da ar draws y cyfnodau a datblygu amgylchedd ystafell ddosbarth (ac ystafell staff) mwy myfyriol.

4.35 Ym Mhennod 5 edrychwn ar oblygiadau'r canlyniadau hyn ar gyfer ysgolion ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

5 Casgliadau ac argymhellion – cefnogi'r trosglwyddo

- 5.1 Trwy gydol yr adroddiad hwn rydym wedi amlygu'r dysgu a'r materion allweddol sy'n deillio o'r ymchwil. Crynhoir y rhain isod.

Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen:

- Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn gyfarwydd â dull y Cyfnod Sylfaen.
- Mae'n ymddangos fod egwyddorion dysgu'r Cyfnod Sylfaen, ar y cyfan, wedi eu cofleidio gan ymarferwyr a phenaethiaid.
- Roedd ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant yr oeddent wedi ei dderbyn ond yn nodi angen am fwy o bwyslais ar gymorth ymarferol, yn arbennig yng nghramau cynnar sefydlu a chyflwyno Cyfnod Sylfaen mewn ysgol.
- Mae ymagweddau tuag at weithredu'r Cyfnod Sylfaen wedi amrywio ac mae tensiynau yn bodoli o hyd ynghylch grwpio disgyblion yn ôl oed a gallu a'u paratoi ar gyfer gofynion cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2.

Gwneud y trosglwyddo

- Credai ymarferwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil fod y rhan fwyaf o blant yn ei chanfod hi'n weddol hawdd i addasu i ddisgwyliadau eu hamgylchedd newydd, ond teimlant, er hynny, y gallai plant gael eu paratoi yn well.
- Roedd plant mewn ysgolion y Cyfnod Sylfaen a rhai heb fod yn Gyfnod Sylfaen yn fwy cyffrous wrth feddwl am symud i Flwyddyn 3 nag yn ofnus ynghylch y syniad o drosglwyddo.
- Tuedda plant ym Mlwyddyn 3 yn ysgolion y Cyfnod Sylfaen i fod â mwy o ofidiau ynglŷn â gadael Blwyddyn 2 na'u cyfoedion, ond nid oeddent

yn ymddangos yn orbryderus, gan ystyried colli rhai o weithgareddau a chyfleusterau'r Cyfnod Sylfaen fel rhan o dyfu i fyny.

- Credai cyfran uwch o ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen nag ymarferwyr heb fod Gyfnod Sylfaen fod plant yn ei chanfod yn haws i wneud y trosglwyddo na'u cyfoedion o grwpiau hŷn, ond nid oeddent yn gallu dweud bod cyswllt pendant rhwng cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a gwell profiadau o drosglwyddo i ddisgyblion.
- Ychydig o wahaniaethau oedd mewn perthynas ag elfennau emosiynol-gymdeithasol trosglwyddo (fel gallu i setlo, ofn, pryder) rhwng plant yn ysgolion y Cyfnod Sylfaen a rhai heb fod yn Gyfnod Sylfaen.
- Ymddengys fod y mecanweithiau gweithredol sy'n cefnogi trosglwyddo llwyddiannus yn eu lle mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen ac mewn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen ond roedd graddau eu gweithredu a pha mor effeithiol y'u gwelwyd yn amrywio.

Hwyluso trawsnewid

- Roedd cefnogaeth gref o ran uwch arweinyddiaeth yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus athroniaeth a rennir ynglŷn ag ymagwedd y Cyfnod Sylfaen at addysgu a dysgu;
- Lle roedd gan athrawon Cyfnod Allweddol 2 fwy o ddealltwriaeth o ddull y Cyfnod Sylfaen, roedd mwy ohonynt yn gwneud addasiadau priodol i'w harferion addysgu i'w gwneud yn haws i'r disgyblion drosglwyddo.
- Roedd mabwysiadu arferion cyffredin ar draws cyfnodau, gan gynnwys newidiadau strwythurol (yn ymwneud ag amserlennu a threfniadaeth yr ystafell ddosbarth) ac ymagweddau tebyg at weithgareddau dysgu a datblygu sgiliau, yn gymorth i'r disgyblion drosglwyddo.
- Roedd cyfathrebu da ar draws y cyfnodau yn hanfodol, o ran cynorthwyo'r trosglwyddo i ddisgyblion ac o ran gwneud yn sicr bod y disgyblion yn bodloni disgwyliadau athrawon Cyfnod Allweddol 2.

- Roedd amgylchedd myfyriol lle gallai ymarferwyr ac athrawon roi cynnig ar wahanol ddulliau heb ofni beirniadaeth yn ddefnyddiol wrth ddatblygu arfer da.

Goblygiadau ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol

5.2 Mae'r canfyddiadau a grynhoir uchod yn fyfyrdodau cadarnhaol yn bennaf ynglŷn â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen hyd yma a phrofiadau'r ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar o ran rheoli'r trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Mae'r ymchwil wedi tynnu sylw at yr arferion oedd yn ymddangos fel pe baent yn cefnogi a hwyluso rheoli trosglwyddo llwyddiannus o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **rheoli trosglwyddo rhwng dwy athroniaeth** – lle roedd ysgolion cynradd yn ceisio mabwysiadu un athroniaeth dysgu i fod yn sail i ddau gyfnod dysgu, roedd staff yn ei chael yn haws i reoli'r trosglwyddo. Mynegwyd pryderon y byddai hyn yn fwy heriol lle roedd gwahanol athrawiaethau (rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2) yn bodoli;
- **sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o natur a gofynion dull y Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm ar gyfer Cyfnod Allweddol 2** ymysg ymarferwyr ac athrawon yn y ddau gyfnod dysgu;
- **darparu cyfleoedd i ennill profiad ymarferol** – tynnodd staff sylw at fanteision cyfleoedd i ennill profiad o'r ddau gyfnod dysgu a nodwyd yn arbennig rhoi cyfle i athrawon Cyfnod Allweddol 2 arsylwi ar y modd y mae plant y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cefnogi i arwain eu dysgu eu hunain;
- **hwyluso hyblygrwydd o ran cynllun yr ystafell ddosbarth ac arfer addysgu** i alluogi ymarferwyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 i addasu arfer;
- **cefnogi a hyrwyddo cyfathrebu parhaus ar draws cyfnodau** i gefnogi dealltwriaeth barhaus o'r cysoni rhwng y ddau gyfnod dysgu a monitro cynnydd y disgyblion yn effeithiol.

- 5.3 Yn deillio o hyn, mae'n amlwg bod gweithredoedd ac arferion y gellir eu cyflwyno a'u cefnogi ar lefel yr ysgol, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru a allai gefnogi ymhellach y gwaith o weithredu trosglwyddo effeithiol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, gan sicrhau cymaint o brofiadau a chanlyniadau cadarnhaol â phosibl i'r disgyblion a'r athrawon.

Camau ar gyfer ysgolion

- 5.4 Amlygodd canfyddiadau'r arolygon a'r cyfweiliadau bwysigrwydd hanfodol ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ysgol gyfan. Mae angen i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ddeall beth mae'r naill a'r llall yn ei wneud a pham. Mae angen i ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 ddeall a bod yn barod ar gyfer yr ystod wahanol o sgiliau ac arferion sydd gan blant o'r Cyfnod Sylfaen ac y maent yn eu mabwysiadu. Mae angen i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen fod yn ymwybodol o'r angen i baratoi plant i fanteisio ar gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2. Yn sail i hyn mae'r athroniaeth addysgu a fabwysiadir gan yr ysgol. ***Mae un athroniaeth a rennir i gyd-fynd ag ethos y Cyfnod Sylfaen*** (yn hyrwyddo dysgu trwy brofiad a datblygu sgiliau a galluoedd yn hytrach na gwybodaeth am gynnwys) yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a hefyd rheoli trosglwyddo esmwyth i Gyfnod Allweddol 2. Mae angen i athroniaeth o'r fath gael ei harwain gan y pennaeth a'r uwch reolwyr yn yr ysgol.
- 5.5 Yn ychwanegol at yr athroniaeth sylfaenol, ***mae angen i ysgolion sicrhau bod staff ar draws y cyfnodau i gyd wedi eu hyfforddi yn nulliau'r Cyfnod Sylfaen*** (o'r Cyfnod Sylfaen hyd at blant iau uwch) er mwyn deall y ffyrdd y mae dysgwyr annibynnol yn cael eu datblygu ac i oresgyn unrhyw bryderon am gwricwlwm seiliedig ar chwarae. Gellid gwneud yr hyfforddiant hwn drwy, er enghraifft:
- sesiynau HMS ffurfiol neu'n anffurfiol (er bod costau ynghlwm â hyn);
 - arsylwi yn yr ystafell ddosbarth (er bod hyn yn her mewn ysgolion lle nad oes digon o gefnogaeth cynorthwyyr yn y dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2 i hwyluso'r dull hwn heb athrawon i gyflenwi);

- ymweliadau ag ysgolion eraill (unwaith eto, mae costau ynghlwm â hyn).

5.6 ***Mae angen i ysgolion geisio defnyddio arferion cyffredin yr ystafell ddosbarth ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 oherwydd bod y rhain wedi cefnogi trosglwyddo cadarnhaol.*** Gallai'r arferion hyn fod mor syml â defnyddio log dysgu tebyg, wedi ei addasu wrth i'r plant symud drwy'r ysgol, neu newidiadau i drefn yr ystafell ddosbarth neu newidiadau i'r amserlen i ganiatáu mwy o gyfnodau o 'ddysgu anffurfiol' ym Mlwyddyn 3.

5.7 Dylai ysgolion ystyried manteisio ar ***y cyfle i'w hathrawon a'u hymarferwyr ystafell ddosbarth arbrofi gyda gwahanol dechnegau*** – ac i fethu heb feirniadaeth. Roedd y cyfle i wneud hyn yn ymddangos fel pe bai'n arwain at fwy o hyder yn eu dull (a throsglwyddiadau cadarnhaol i Gyfnod Allweddol 2). Awgryma tystiolaeth gan gyfweleion y gallai fod yn fanteisiol i annog yr arferion canlynol yn yr ysgol i hwyluso mwy o gyfleoedd i'r staff wneud y canlynol:

- cyfarfod â, a chyfathrebu ag ymarferwyr eraill o fewn ac ar draws cyfnodau;
- rhannu arfer ac adnoddau;
- datrys problemau;
- ei gwneud yn bosibl i fyfyrwyr ac adolygu cwricwla'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Camau ar gyfer awdurdodau lleol

5.8 Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae i gefnogi ysgolion i gyflenwi'r camau a nodwyd ganddynt. Yn arbennig gallant ***ddarparu cymorth a chydlyniant i hwyluso rhannu arfer a phrofiad a darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ac arsylwi.***

5.9 Amlygodd ysgolion y ffaith y gall cyflenwi hyfforddiant ar draws yr ysgol fod yn heriol ac yn ddud – a gofynnwyd a yw awdurdodau lleol yn cefnogi

ysgolion drwy ddatblygu hyfforddiant i'w gyflwyno ar ddyddiau HMS neu sesiynau gyda'r hwyr? Dywedodd ymarferwyr ac athrawon y byddent yn croesawu cyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer a gallai'r awdurdod lleol fod yn allweddol o ran hwyluso hyn. Byddai ymarferwyr yn croesawu mynediad at enghreifftiau amlgyfrwng o arfer neu fforymau/blogiau ar-lein lle gellid rhannu profiad, pryderon a phroblemau. Gallai awdurdodau lleol fod â rôl yn y gwaith o gefnogi a datblygu hyn gan ganolbwyntio ar faterion a nodir yn lleol.

Camau ar gyfer Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid eraill

- 5.10 Teimlai'r rhan fwyaf o gyfweleion fod y rhan fwyaf o ddeunyddiau canllaw oedd yn bodoli (Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdod lleol ac arall) ynglŷn ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn ddefnyddiol. Byddai canllawiau ac adnoddau ar agweddau ymarferol y Cyfnod Sylfaen (gan gynnwys agweddau ffisegol trefniadaeth yr ystafell ddosbarth a storio adnoddau⁹) yn cael eu croesawu, yn yr un modd ag y byddai enghreifftiau o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, cymorth effeithiol i Gyfnod Allweddol 2, ac arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Byddai fforwm datrys problemau ar-lein gydag ymarferwyr eraill hefyd yn cael ei groesawu.
- 5.11 Amlygwyd yr angen am well cysoni rhwng hyfforddiant cychwynnol i athrawon gydag arferion y Cyfnod Sylfaen fel un o'r camau pwysicaf o ran gwella arfer, gan gynnwys y trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2. Er bod datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn cael ei gymeradwyo, roedd staff yn pryderu ynghylch y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith athrawon dan hyfforddiant ac athrawon cynradd a Blynnyddoedd Cynnar a oedd newydd gymhwyso ynghylch hyn.

⁹ Caiff hyn ei gynnwys yn rhannol mewn perthynas â gweithgaredd awyr agored yn Outdoor Handbook ac yn "First steps outside"
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation_phase/foundationphasepractitioners/outdoorlearning/?lang=en

Atodiad 1 Llyfryddiaeth

Adams, S., Moyles, J. a Musgrove, A., 2008, *SPEEL Study of Pedagogical Effectiveness in Early Learning*. Nottingham, DfES.

Blatchford, P., Hallam, S., Ireson, J., Kutnick, P. gyda Creech, A., 2008, *Classes, groups and transitions: structures for teaching and learning*, Caergrawnt, Cyfadran Addysg Prifysgol Caergrawnt.

Day, L. a McKenna, K., 2008, *Transition Information Sessions Year Two Evaluation*. Llundain, DCSF.

Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2008, *How strong is the relationship between foundation stage profile and key stage 1?* Papur wedi'i adneuo gan Senedd y DU: DEP2008-1634.

Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2009a, *Deprivation and education: the evidence on pupils in England, foundation stage to key stage 4*, www.dcsf.gov.uk/research

Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2009b, *Measuring progress at pupil, school and national levels*, <http://publications.dcsf.gov.uk/eOrderingDownload/DCSF-RTP-09-02.pdf>

Adran Addysg a Sgiliau, 2006, *Seamless Transitions – supporting continuity in young children's learning*. Cyhoeddiadau DfES.

Duckworth, K., 2007, *What role for the 3Rs? Progress and attainment during primary school*, Nottingham, DCSF.

Estyn, 2010, *Cynnydd wrth wella ansawdd ym mhob un o'r sectorau rydyn ni'n eu harolygu: Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2008-2009*. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Evans, K., George, N., White, K. a Sharp, C. 2010, *Schools and Communities Research Review 2: Ensuring that all children and young people make sustained progress and remain fully engaged through all transitions between key stages*. Llundain, C4EO.

Galton, M., 2008, *Creative Practitioners in schools and classrooms: Final report of the project: The Pedagogy of Creative Practitioners in Schools*, Caergawnt, Prifysgol Caergrawnt.

Galton, M., Gray, J., Rudduck, J. gyda Berry, M., Demetriou, H., Edwards, J., Goalen, P., Hargreaves, L., Hussey, S., Pell, T., Schagen, I. a Charles, M., 2003, *Transfer and transitions in the middle years of schooling (7-14): continuities and discontinuities*. Nottingham, DfES.

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2005, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2004-2005. Gwnaed gan Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg*. Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, n.d., *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen – 3 i 7 oed*. Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Strategaethau Cenedlaethol, 2009, *Improving quality and raising standards in the Early Years: A directory of resources for local authorities*, Nottingham, DCSF.

Ofsted, 2004, *Transition from the Reception Year to Year 1: An evaluation by HMI*. www.ofsted.gov.uk

Ofsted, 2007, *The Foundation Stage: A survey of 144 settings*. <http://ofstedgov.com/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Care/Childcare/The-Foundation-Stage>

Page, A., 2008, *Transition information sessions: demonstration project 2006-08: lessons learned report*. www.dcsf.gov.uk/research

Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm, n.d., *Continuing the learning journey: Training package*. Norwich, QCA.

Rose, J., 2009, *Independent Review of the Primary Curriculum: Final Report*. Nottingham, DCSF.

Sammons, P., Sylva, K., Melhuish, E., Siraj-Blatchford, I., Taggart, B., Grabb, Y. a Barreau, S., 2007, *Effective Pre-school and Primary Education 3-11*

Project (EPPE 3-11) Summary Report Influences on Children's Attainment and Progress in Key Stage 2: Cognitive Outcomes in Year 5. Nottingham, Cyhoeddiadau DfES.

Sanders, D., White, G., Burge, B., Sharp, C., Eames, A., McEune, R. a Grayson, H., 2005, *A Study of the Transition from Foundation Stage to Key Stage 1.* Nottingham, Cyhoeddiadau DfES.

Sebba, J., Brown, N., Steward, S., Galton, M., 2007, *An Investigation of Personalised Learning Approaches used by Schools,* Nottingham, Cyhoeddiadau DfES.

Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Laugharne, J., Milton, E. a Charles, F., 2005, *Prosiect Monitro a Gwerthuso Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen Yn Effeithiol (MEEIFP) Ar Draws Cymru: Peilot y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Gwerthuso Terfynol Peilot Blwyddyn 1 – 3-5 Oed. Tachwedd 2005.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Laugharne, J., Milton, E. a Charles, F., 2006, *Prosiect Monitro a Gwerthuso Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen Yn Effeithiol (MEEIFP) Ar Draws Cymru: Peilot y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Gwerthuso Terfynol – 3-5 Oed Medi 2004 –Hydref 2006.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Muttock, S., Gilden, R. a Bell, D., 2002, *Researching Effective Pedagogy in the Early Years.* Adroddiad Ymchwil DfES 356.

Stephen, C a Cope, P, 2003, "An Inclusive Perspective to Transition to Primary School", *European Educational Research Journal*, 2 (2), tud.262-276.

Strand, S., 1999, "Ethnic group, sex and economic disadvantage: association with pupils' educational progress from Baseline to the end of Key Stage 1", *British Educational Research Journal*, 25 (2), tud179-202.

Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I. a Taggart, B., 2004, *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Final Report.* Nottingham, DfES.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003, Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad *ar gyfer Cyfnod Sylfaen i blant 3-7 oed Y wlad sy'n Dysgu: Dogfen Wybodaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, Manteisio i'r eithaf ar ddysgu - Gweithredu'r Cwricwlwm Diwygiedig, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009, *Pecyn Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen – Modiwl 8 Trosglwyddo*, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad 2 Atodiad methodolegol

- A.1 Yn yr Atodiad hwn rydym yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i archwilio trosglwyddiadau disgyblion chwech i wyth oed yng Nghymru. Yn 2004, dechreuodd 22¹⁰ o ysgolion - a adwaenir fel ysgolion peilot - gyflenwi'r Cyfnod Sylfaen ac felly roeddent wedi cael profiad o drosglwyddo dwy garfan o blant o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Dechreuodd 22 pellach (ysgolion dechrau'n gynnar) gyflenwi'r Cyfnod Sylfaen yn 2007 ac ar adeg yr astudiaeth, dim un garfan o ddisgyblion yn unig oedd wedi cael profiad o drosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.
- A.2 Er mwyn ateb cwestiynau'r ymchwil a ofynnwyd ar ddechrau'r astudiaeth, roedd tair elfen graidd i gam ymchwil yr astudiaeth:
- adolygiad cychwynnol o lenyddiaeth wedi'i ddiweddararu sydd ar gael;
 - arolwg o benaethiaid ac athrawon mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen a sampl o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen;
 - cyfres o astudiaethau wyneb yn wyneb mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen a rhai heb fod yn Gyfnod Sylfaen.
- A.3 Ceir manylion pellach isod ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod pob un o'r tri cam hwn.

Adolygiad o'r llenyddiaeth

- A.4 Roedd yr adolygiad o'r llenyddiaeth yn gymharol fychan, gan adeiladu ar adolygiad cynhwysfawr Siraj-Blatchford et al (2005) o ddarpariaeth ac arfer effeithiol yn y blynyddoedd cynnar (ar gyfer plant tair i bump oed), a archwiliodd faterion trosglwyddo i'r cyfnod cyn-ysgol ac i'r Cyfnod Allweddol 1 oed dyn bod bryd hynny o'r Cyfnod Sylfaen. Bwriadwyd i'r adolygiad lywio'r offer ymchwil a rhoi gwybodaeth ar gyfer unrhyw ddeunydd canllaw dilynol i'w paratoi ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- A.5 Pwysodd yr adolygiad ar lenyddiaeth:
- wedi ei gyhoeddi yn y pum mlynedd diwethaf (2006 hyd 2010);
 - wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg neu Saesneg;
 - oedd yn edrych yn benodol ar faterion trosglwyddo, yn arbennig y rheiny ar gyfer disgyblion saith i wyth oed, ar gyfer disgyblion yn symud o un cwricwlwm neu arddull addysgeg i un arall ac ar faterion addysgeg a gwybodaeth ar gyfer athrawon ac ysgolion.

¹⁰ Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ysgolion meithrin nac ysgolion arbennig, a oedd wedi'u hepgor o'r astudiaeth gyfredol.

- A.6 Er mwyn hwyluso'r chwilio, fe wnaethom bwyso ar lenyddiaeth a amlygwyd yn Siraj-Blatchford *et al* (2005), a llenyddiaeth oedd ar gael o Wasanaeth Gwybodaeth IDOX. Mae'r chwiliadau geiriau allweddol wedi eu strwythuro a ddefnyddiwyd i leoli dogfennau ar IDOX wedi eu rhoi yn Nhabl A-1.

Tabl A-1: Eitemau chwilio IDOX

- Cyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2
- Blwyddyn 2 i Flwyddyn 3
- Profiad dysgwr Blwyddyn 2
- Trosglwyddo 7 i 8 oed
- Arddull addysgeg (trosglwyddo)
- Trosglwyddo addysgeg
- Trosglwyddo gwybodaeth
- Materion trosglwyddo addysgeg (Cyfnod Allweddol 2)
- Materion trosglwyddo gwybodaeth (Cyfnod Allweddol 2)
- Materion trosglwyddiad athrawon
- Rhwystrau i drosglwyddo
- Arfer da trosglwyddo
- Trosglwyddo Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Sylfaen
- Trosglwyddo rhwng cyfnod allweddol
- Babanod i gynradd
- Trosglwyddo rhwng blwyddyn
- Trosglwyddiad
- Dilyniant
- Cynnydd
- Trosglwyddo
- Trosglwyddiadau
- Addysg trosglwyddo
- Trosglwyddiad disgyblion
- Taflwybrau
- Problemau trosglwyddo
- Addasu ysgol
- Trefniadaeth ysgol
- Addysg sgiliau personol
- Datblygiad personol
- Canllaw addysgol

Ffynhonnell: SQW

A.7 Paratowyd fframwaith dadansoddol er mwyn gallu adolygu'r llenyddiaeth mewn templed yn erbyn cwestiynau ymchwil, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Pa newidiadau sydd yn yr amgylchedd dysgu o un cyfnod addysg i un arall (Cyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2 neu'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2)?
- Sut mae patrymau trosglwyddo yn cymharu rhwng grwpiau'r Cyfnod Sylfaen a rhai heb fod yn Gyfnod Sylfaen?
- Pa broblemau a welwyd gyda throsglwyddo?
- Sut cafodd y problemau hyn eu datrys gan ymarferwyr?

A.8 Llywiodd y wybodaeth a gasglwyd gynllun yr astudiaeth achos ac offer arolwg, ac mae wedi ei adlewyrchu ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Arolwg ysgolion

A.9 Roedd elfen arolwg yr ymchwil yn cynnwys dau arolwg ar gyfer y penaethiaid a staff Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 ym mhob ysgol cyflwyno'n gynnar ac mewn sampl o ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen.

Sampl yr arolwg

A.10 Anfonwyd yr arolwg i 42 o ysgolion peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar, sef y boblogaeth i bob pwrpas, wedi tynnu'r tair ysgol feithrin a'r un ysgol arbennig oedd wedi eu hepgor o'r astudiaeth. Yn ychwanegol at hyn, crëwyd cymharydd; 42 ysgol heb fod yn Gyfnod Sylfaen. Er mwyn sicrhau bod y sampl ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen mor bur â phosibl, tynnwyd ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen o restr ysgolion yr oedd Estyn wedi eu harolygu ers 2009. Y rhesymeg oedd y byddai arolwg diweddar o dan y drefn bresennol yn golygu y byddai'r ysgolion hyn yn gweithredu o fewn fframwaith Cyfnod Allweddol 1, yn hytrach na symud i weithrediad llawn y Cyfnod Sylfaen ar draws yr ystod oedran.

A.11 Roedd gan y sampl heb fod yn Gyfnod Sylfaen feini prawf er mwyn sicrhau ystod o sefyllfaoedd cyd-destunol, yn cynnwys:

- ysgolion mawr a bach eu maint;
- ysgolion cyfrwng Cymraeg a heb fod yn gyfrwng Cymraeg;
- ysgolion trefol a gwledig;
- ysgolion gyda dosbarthiadau oedran cymysg a dim (neu leiafrif) dosbarthiadau oedran cymysg;

- ysgolion mewn ardaloedd â lefelau amddifadedd uchel ac isel.

Gweithredu'r arolwg

- A.12 Anfonwyd holiaduron papur dwyieithog i'r 84 ysgol a oedd yn y sampl. Derbyniodd pob ysgol un arolwg i'w llenwi gan y pennaeth a dau gopi o'r arolwg i'w llenwi gan yr athrawes Cyfnod Sylfaen neu'r athro Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2.
- A.13 Roedd yr arolwg ar waith tuag at ddiwedd tymor yr haf, rhwng dydd Llun 5 Gorffennaf a dydd Gwener 30 Gorffennaf 2010. Cwblhaodd deugain a thri o benaethiaid yr arolwg (cyfradd ymateb o 51%), ac ymatebodd 84 o ymarferwyr (42%) i'r arolwg. Roedd y gyfradd ymateb yn arbennig o dda gan ysgolion Cyfnod Sylfaen (lle roedd ymatebion gan ymarferwyr ac athrawon yn fwy na 50%) ac ysgolion dechrau'n gynnar. Mae Tabl A-2 yn rhoi crynodeb o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ôl y math o ysgol.

Dadansoddiad o'r arolwg

- A.14 Datblygwyd y strategaeth ddadansoddi gyffredinol ar gyfer yr arolygon yn ystod y cam cynllunio ar gyfer yr holiaduron, i sicrhau bod yr holl gwestiynau allweddol yn cael eu gofyn mewn fformat a oedd yn hwyluso dadansoddiad ystadegol priodol. Defnyddiwyd traws-dabliadau i archwilio a oedd canfyddiadau'r arolwg yn amrywio ar draws ysgolion peilot, dechrau'n gynnar ac ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen ac yn ôl Cyfnod Allweddol yr ymarferwr ac yn ôl Cyfnod Allweddol yr ymarferwr. Er bod nifer yr ymatebion yn cyfyngu cwm pas y dadansoddiad, nodir amrywiadau mynegol yn yr adroddiad.

Tabl A-2: Nodweddion ysgolion a arolygwyd

		Ymatebwyr Arolwg Ysgolion		Ysgolion Sampl	Pob Ysgol yng Nghymru
		Ymatebwyr sy'n benaethiaid	Ymatebwyr sy'n ymarferwyr		
Cyfanswm nifer yr ysgolion		43	44	84	1,462
Math o ysgol	Peilot	13%	34%	25%	2%
	Dechrau'n gynnar	23%	25%	24%	2%
	Heb fod yn Gyfnod Sylfaen	40%	34%	50%	97%
	Di-ddosbarth	7%	7%	0%	0%
Cyfrwng yr addysgu	Cyfrwng Saesneg	65%	61%	71%	67%
	Cyfrwng Cymraeg	14%	20%	21%	29%
	Ffrwd Ddeuol	12%	11%	7%	3%
	Di-ddosbarth	9%	7%	0%	0%
Lleoliad	Trefol	70%	70%	79%	76%
	Gwledig	21%	23%	21%	24%
	Di-ddosbarth	9%	7%	0%	0
Cyfran y disgyblion sy'n byw yn yr 20% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig)	0-25%	53%	57%	61%	71%*
	26-50%	12%	9%	11%	14%*
	51-75%	12%	11%	13%	9%*
	76-100%	14%	16%	15%	7%*
	Di-ddosbarth	9%	7%	0%	0%*
Maint yr ysgol	<15 o ddysgyblion fesul grŵp blwyddyn	14%	16%	19%	35%**
	15-30 o ddysgyblion fesul grŵp blwyddyn	35%	34%	27%	36%**
	>30 o ddysgyblion fesul grŵp blwyddyn	42%	43%	54%	29%**
	Diddosbarth	9%	7%	0%	0%**

			Ymatebwyr Arolwg Ysgolion		Ysgolion Sampl	Pob Ysgol yng Nghymru
			Ymatebwyr sy'n benaethiaid	Ymatebwyr sy'n ymarferwyr		
Cymysgedd oedran ddosbarthiadau	Holl ddosbarthiadau oedran cymysg		21%	25%	25%	38%
	Mwyafrif ddosbarthiadau oedran cymysg	o	21%	20%	24%	20%
	Lleiafrif ddosbarthiadau oedran cymysg	o	21%	23%	29%	22%
	Dim dosbarthiadau oedran cymysg		28%	25%	23%	20%
	Diddosbarth		9%	7%	0%	0%

* seiliedig ar 1,457 o ysgolion

** seiliedig ar 1,412 o ysgolion

Ffynhonnell: SQW

Astudiaethau achos ysgolion

A.15 Nod cynnal ymchwil astudiaeth achos mewn ysgolion ledled Cymru oedd cael dealltwriaeth o'r canlynol:

- effaith y Cyfnod Sylfaen ar ddisgyblion, yn ystod eu blwyddyn gyntaf hyd at Flwyddyn 2 ac ar y trosglwyddo y maent yn ei wneud i Gyfnod Allweddol 2;
- y newidiadau (os o gwbl) y cred ymarferwyr/athrawon a chynorthwywyr addysgu y mae cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen wedi ei wneud i'w haddysgeg eu hunain ac i ganlyniadau disgyblion;
- addasiadau (os o gwbl) y cred ymarferwyr/athrawon y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 sydd yn dal angen eu gwneud mewn addysgeg ac arfer er mwyn paratoi plant at gyfer (a'u cefnogi drwy) y trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2

Dewis a recriwtio ysgolion

A.16 Roedd y sampl o ysgolion a ddarparwyd i'r ymchwilwyr gan Lywodraeth y Cynulliad yn ceisio bod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth. O ganlyniad roedd yr ysgolion a ddewiswyd:

- yn gymysgedd o ysgolion peilot, dechrau'n gynnar a heb fod yn Gyfnod Sylfaen;
- yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog;
- gyda niferoedd gwahanol ar y gofrestr;
- yn gweithredu naill ai dosbarthiadau un oedran neu oedran cymysg;
- wedi eu lleoli mewn naill ai lleoliadau trefol neu wledig;
- wedi eu lleoli mewn gwahanol awdurdodau lleol;
- gyda lefelau gwahanol o amddifadedd.

A.17 Comisiynwyd yr ymchwil yn niwedd mis Mai 2010, a rhoddodd hyn chwe wythnos hyd at dymor yr haf i gynnal gwaith maes yr astudiaeth achos. Y bwriad gwreiddiol oedd recriwtio 15 ysgol astudiaeth achos, gyda deg ohonynt yn ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen a phump yn ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen wedi eu tynnu o sampl cynrychioliadol o ysgolion a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ystod y tymor prysur hwn ymgysylltodd y tîm ymchwil 15 ysgol yn llwyddiannus yn yr astudiaeth. Fodd bynnag, bu'n rhaid i un o'r ysgolion peilot Cyfnod Sylfaen a recriwtiwyd dynnu'n ôl o'r astudiaeth yn hwyr oherwydd ymrwymadau amser eraill y staff, felly gostyngwyd nifer yr astudiaethau achos i 14; roedd y rhain yn cynnwys saith ysgol beilot, dwy ysgol dechrau'n gynnar a phump ysgol heb fod yn Gyfnod Sylfaen. Nodir proffil terfynol yr ysgolion astudiaeth achos yn Nhabl A-3 isod.

Tabl A-3: Nodweddion ysgolion astudiaeth achos

		Ysgolion dechrau'n gynnar	Ysgolion peilot	Ysgolion heb fod yn Cyfnod Sylfaen	Holl ysgolion astudiaeth achos
Cyfrwng addysgu	Cyfrwng Saesneg	2	5	3	10
	Cyfrwng Cymraeg	0	1	1	2
	Dwy Ffrwd	0	1	1	2
Lleoliad	Trefol	2	5	5	12
	Gwledig	0	2	0	2
Cyfran disgyblion sy'n byw yn	0-25%	1	5	5	11
	26-50%	0	0	0	0
	51-75%	0	1	0	1

		Ysgolion dechrau'n gynnar	Ysgolion peilot	Ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen	Holl ysgolion astudiaeth achos
yr 20% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig	76-100%	1	1	0	2
Maint yr ysgol	<15 o ddysgyblion fesul grŵp blwyddyn	0	2	1	3
	15-30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn	0	1	1	2
	>30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn	2	4	3	9
Cymysgedd oedran dosbarthiad au	Holl ddosbarthiadau oedran cymysg	0	2	1	3
	Mwyafrif ddosbarthiadau oedran cymysg	o 1	2	1	4
	Lleiafrif ddosbarthiadau oedran cymysg	o 0	2	1	3
	Dim dosbarthiadau oedran cymysg	1	1	2	4

Ffynhonnell: SQW

- A.18 Gofynnwyd i ysgolion a recriwtiwyd fel astudiaethau achos am eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau. Lle dewisodd ysgolion i gyfweiliadau gael eu cynnal yn Gymraeg defnyddiom ein cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i gefnogi'r rhaglen gyfweiliadau. Yn olaf, ceisiodd ymchwilwyr oedd yn ymwneud ag ysgolion astudiaeth achos i gwblhau pob cyfweiliad a thrafodaethau grŵp disgyblion ar un diwrnod er mwyn lleihau'r pwysau ar ysgolion.

Dulliau ymchwilio

Cyfweiliadau gyda phenaethiaid ac ymarferwyr

- A.19 Roedd pob ymweliad ysgol yn cynnwys cyfweiliadau wedi eu strwythuro'n rhannol gyda'r pennaeth a hyd at bedwar o ymarferwyr/athrawon (a/neu staff cymorth) yn Gymraeg neu Saesneg fel oedd yn briodol. Roedd yr ymgynghori gydag ysgolion peilot a dechrau'n gynnar yn cynnwys materion megis:

- effaith trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 ar yr ysgol a'r dulliau a fabwysiadwyd i reoli hyn;
- ethos addysgu ar draws y trosglwyddo Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2;
- strwythurau staffio a threfniadau ymarferol;
- yr her o reoli trosglwyddo o ddysgu trwy brofiad i ddysgu seiliedig ar bwnc.

A.20 Ar gyfer ysgolion heb fod yn Gyfnod Sylfaen ceisiodd y cyfweiliadau archwilio:

- barn ar y cwricwlwm a'r dull Cyfnod Allweddol 1, a barn am y Cyfnod Sylfaen yn erbyn Cyfnod Allweddol 1;
- trefniadau a phrofiadau presennol (Cyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2) trosglwyddo;
- yr effaith a ragwelir ar yr ysgol wrth symud o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Sylfaen a rheoli'r trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2;
- ethos addysgu ar draws trosglwyddiad Cyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2;
- strwythurau staffio a threfniadau ymarferol;
- yr her o reoli trosglwyddo o ddysgu trwy brofiad i ddysgu seiliedig ar bwnc;
- y newidiadau presennol a'r newidiadau a gynllunnir ar gyfer yr ysgol.

A.21 Er mwyn cynorthwyo'r cyfweiliadau hyn cynlluniwyd cymorth cof wedi ei deilwra i'r math o ysgol (peilot a dechrau'n gynnar neu heb fod yn Gyfnod Sylfaen) ac ymgynghorai penodol (pennaeth, Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1, Cyfnod Allweddol 2 a chynorthwydd addysgu) gan y tîm ymchwil. Gellir gweld copïau o'r offer yma yn Atodiad 4. Llywiwyd y canllawiau gan yr adolygiad cychwynnol o lenyddiaeth, trafodaethau cwmpasu gyda'r tîm cleient a chynghor arbenigol ar faterion trosglwyddo gan Christine Stephen. Cytunwyd ar gymorth cof gyda'r grŵp cleient yn Llywodraeth y Cynulliad cyn y dechreuwyd ar y gwaith maes.

A.22 Lle bo hynny'n bosibl, cynhaliwyd cyfweiliadau mewn man tawel er mwyn hwyluso trafodaethau. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn bosibl oherwydd amserlenni prysur penaethiaid, ymarferwyr, athrawon a chynorthwywyr athrawon, felly roedd ymchwilwyr yn hyblyg ar y mater hwn. Hefyd, mewn rhai achosion, cynhaliwyd cyfweiliadau un i un tra mewn

achosion eraill cyfwelwyd ymarferwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu gyda'i gilydd. Roedd cyfweld ag ymarferwyr mewn grwpiau yn caniatáu i ymchwilwyr leihau'r pwysau ar yr ysgol tra'n ymgynghori â chymaint o staff â phosibl o fewn cyfyngiadau amserlen yr ymarferwyr. Cafodd pob cyfweiliad ei recordio'n ddigidol er mwyn sicrhau bod data a gasglwyd yn fanwl gywir a chynhwysfawr, er bod ymchwilwyr hefyd yn gwneud nodiadau.

- A.23 Ymgynghorwyd ag 16 o benaethiaid (roedd rhai lleoliadau yn cyflogi dau bennaeth, un ar gyfer yr ysgol babanod ac un ar gyfer yr ysgol iau) ar draws y 14 o ysgolion astudiaeth achos. Ar ben hynny, cynhaliodd ymchwilwyr gyfweiliadau gyda 15 o ymarferwyr ysgolion Cyfnod Sylfaen, 3 o athrawon Cyfnod Allweddol 1 ac 13 o athrawon Cyfnod Allweddol 2. Gellir gweld crynodeb o'r ymarferwyr/athrawon a gyfwelwyd ym mhob ysgol astudiaeth achos yn Nhabl A-4.

Table A-4: Niferoedd staff a grwpiau o ddisgyblion a gyfwelwyd yn ystod ymweliadau astudiaeth achos

	Math o ysgol		Ymarferwyr/Athrawon yr ymgynghorwyd â hwy				Nifer y grwpiau disgyblion a gyfwelwyd			
Enw'r Ysgol	CS/Dim -CS	Peilot / Cynnar	Pennaeth/Dirprwy	CS	CA1	CA2	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4
A	CS	Peilot	1	1	0	1	0	0	1	0
B	CS	Peilot	1	1	0	1	0	1	1	1
C	CS	Peilot	1	5	0	2	0	1	1	0
D	CS	Dechr au'n gynnar	1	2	0	1	0	1	1	0
E	CS	Peilot	2	4	0	1	0	1	1	0
F	CS	Peilot	1	1	0	1	1	0	1	0
G	CS	Dechr au'n gynnar	1	2	0	0	0	1	0	0
H	CS	Peilot	1	1	0	0	0	1	1	1
I	CS	Peilot	1	1	0	1	0	1	1	0
J	Dim-CS	D/G	2	1	0	2	0	1	1	0
K	Dim-CS	D/G	1	0	0	1	0	1	1	0
L	Dim-CS	D/G	1	0	1	1	0	1	1	0
M.	Dim-CS	D/G	1	0	1	1	0	1	1	0
N	Dim-CS	D/G	1	0	1	1	0	1	1	0
CYFANSWM			16	15	3	13	1	12	13	2

Ffynhonnell: SQW

Cyfweliadau grŵp rhyngweithiol gyda disgyblion

A.24 Cynhaliwyd cyfweliadau grŵp rhyngweithiol gydag ychydig dros 140 o blant ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 3. Roedd y cyfweliadau yn ymdrin â materion megis:

- teimladau disgyblion ynglŷn ag ysgol;

- y ffyrdd y maent yn gweithio a dysgu;
- ar gyfer y rheiny ym Mlwyddyn 2, i ba raddau y maent yn teimlo'n hyderus ynglŷn â throsglwyddo i Flwyddyn 3;
- ar gyfer y rheiny ym Mlwyddyn 3, i ba raddau y maent wedi mwynhau symud i fyny i Gyfnod Allweddol 2.

A.25 Unwaith eto, llywiwyd y canllawiau gan yr adolygiad cychwynnol o lenyddiaeth, trafodaethau cwmpasu gyda'r tîm cleient a chyngor arbenigol ar faterion trosglwyddo gan Christine Stephen Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gyfweld â grwpiau o ddisgyblion yn cynnwys:

- sesiwn gwneud bathodyn enw er mwyn torri'r garw;
- trafodaeth anffurfiol i gael cydsyniad gwybodus gan y disgyblion;
- defnydd o ddoliau a/neu bêl yn siarad er mwyn annog sgwrs ynglŷn â theimladau disgyblion am ysgol a'r ffyrdd y maent yn gweithio a dysgu;
- sesiwn nodyn 'post-it' sy'n annog disgyblion i ysgrifennu, tynnu llun a thrafod eu teimladau am ysgol.

A.26 Derbyniodd y tîm ymchwilwyr a oedd yn gwneud y gwaith maes hyfforddiant gan gyfarwyddwr a rheolwr y prosiect a Christine Stephen mewn cynnal a recordio'r trafodaethau grŵp gyda disgyblion a defnyddio'r offer a ddatblygwyd. Er enghraifft, hyfforddwyd y tîm ymchwilio i ddefnyddio iaith a chystrawennau priodol ar gyfer oedran a defnydd priodol o ddeunyddiau ysgogi a strategaethau rhyngweithiol. Roedd hyn yn sicrhau cysondeb ac ansawdd yn y cyflenwi. Cafodd pob trafodaeth grŵp ei recordio'n ddigidol er mwyn sicrhau bod y data a gasglwyd yn fanwl gywir a chynhwysfawr.

A.27 Cynhaliwyd cyfweiliadau grŵp rhyngweithiol gyda 25 o grwpiau, naill ai yn Gymraeg neu Saesneg fel yr oedd yn briodol. O'r 25 cyfweiliad grŵp, roedd 12 ym Mlwyddyn 2, 13 ym Mlwyddyn 3 (gyda thri ohonynt yn cynnwys disgyblion o Flwyddyn 4) a chynhaliwyd cyfweiliad grŵp arall gyda disgyblion Blwyddyn 1. Roedd nifer y disgyblion ymhob grŵp yn amrywio ond yr ystod oedd rhwng chwech ac wyth o blant. Gofynnodd ymchwilwyr oedd yn ymweld ag ysgolion astudiaeth achos i ymarferwyr/athrawon ddewis dyrnaid o ddisgyblion a oedd yn gynrychioliadol o ddisgyblion yr ysgol i gymryd rhan yn y cyfweiliadau rhyngweithiol grŵp.

Dadansoddiad astudiaeth achos

A.28 Wedi cwblhau'r ymweliadau astudiaeth achos ysgolion, rhoddwyd recordiadau digidol a nodiadau ymchwilwyr mewn templed dadansoddi pwrpasol ar gyfer

pob ysgol astudiaeth achos. Caniataodd hyn ddadansoddi a thriongli gwahanol safbwyntiau o fewn ysgolion a rhwng ysgolion.

Atodiad 3 Tablau Amledd yr Arolwg

Pennaeth

Amadanoch chi

C1. Teitl swydd	N	%
Pennaeth	39	91%
Dirprwy Bennaeth	1	2%
Dim Ymateb	3	7%
Cyfanswm	43	100%

C2. Pa mor hir ydych chi wedi gweithio yn yr ysgol hon?	N	%
Llai na blwyddyn	3	7%
1-3 blynedd	9	21%
4-6 blynedd	6	14%
7-9 blynedd	4	9%
10 mlynedd neu hwy	21	49%
Cyfanswm	43	100%

C3. Pa mor hir ydych chi wedi bod yn athro/athrawes?	N	%
Llai na blwyddyn	0	0%
1-3 blynedd	0	0%
4-6 blynedd	1	2%
7-9 blynedd	0	0%
10-19 blynedd	9	21%
20-29 blynedd	14	33%
30-39 blynedd	16	37%
40 mlynedd neu hwy	2	5%
Dim ymateb	1	2%
Cyfanswm	43	100%

Cyfnod Sylfaen

**C4. Pa mor gyfarwydd fydddech chi'n ddweud yw'r ymarferwyr
'Cyfnod Sylfaen / CA1 a Cyfnod Allweddol 2 gyda'r Cyfnod
Sylfaen?**

	Ymarferwyr Cyfnod Sylfaen / CA1	Athrawon CA2
yn defnyddio'r Cyfnod Sylfaen	39	39
yn gwybod cryn dipyn amdano	3	3
lefelau cymysg o wybodaeth	1	1
wedi clywed am y Cyfnod Sylfaen	0	0
heb glywed amdano	0	0
Dim ymateb	0	0
Cyfanswm	43	43

C5. Gan feddwl am yr ymarferwyr yn eich ysgol, i ba raddau fydddech chi'n cytuno neu anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?	Mae fy staff yn gyfforddus gyda'r syniad o ddysgu seiliedig ar chwarae yn yr ysgol	Mae ymarferwyr Cyfnod Sylfaen/CA1 yn yr ysgol wedi eu hyfforddi mewn defnyddio dysgu trwy brofiad	Mae athrawon CA2 yn yr ysgol wedi eu hyfforddi mewn defnyddio dysgu trwy brofiad	Mae'r Saith Maes Dysgu yn rhoi cwricwlwm eang a chytbwys i'r holl blant	Y ffactor allweddol mewn penderfynu beth (a sut) y caiff plentyn ei addysgu yw ei oedran	Mae'n well gan fy staff i blant eistedd yn dawel wrth eu desgiau yn yr ystafell ddosbarth	Dylid addysgu pob plentyn yn ôl ei gam datblygiadol	Credaf y dylai'r cwricwlwm gael ei seilio o amgylch pynciau (e.e. Cymraeg, Mathematig, Daearyddiath	Mae fy ymarferwyr yn hapus yn gweithio gyda phlant y tu allan i'r ystafell ddosbarth
Cytuno'n Gryf	24	32	7	29	19	22	29	10	26
Cytuno	15	9	13	13	3	0	13	2	13
Dim yn cytuno nac anghytuno	3	1	9	0	3	4	0	9	3
Anghytuno	0	0	8	0	13	11	0	18	0
Anghytuno'n gryf	0	0	0	0	4	5	0	3	0
Dim yn gwybod/ Dim yn gymwys	0	0	4	0	0	0	0	0	0
Dim Ymateb	1	1	2	1	1	1	1	1	1
Cyfanswm	43	43	43	43	43	43	43	43	43

C6. Sut, os o gwbl, yr ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen yn newid/mae wedi newid pethau ar gyfer plant yn eich ysgol?						
Bydd y Cyfnod Sylfaen yn helpu plant i ...	...ddod yn ddysgwyr mwy annibynnol	... weithio'n dda gydag eraill	... ddod yn well am ddatrys problemau	... gyflawni mwy yn academiaidd	... ymddwyn yn well	... ddod yn fwy hunan hyderus
Mae hyn yn wir am yr holl blant	28	31	21	15	20	29
Mae hyn yn wir am rai o'r plant	15	12	22	27	22	14
Nid yw hyn yn wir am unrhyw blant	0	0	0	1	1	0
Dim ymateb	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	43	43	43	43	43	43

Trosglwyddo rhwng y Cyfnod Sylfaen /CA1 → CA2

C7. I ba raddau ydych chi yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol am drosglwyddo yn eich ysgol?	Mae'r disgyblion sy'n symud i CA2 yn barod am newid mewn addysgu a'r cwricwlwm	Mae plant yn ei chael hi'n haws setlo yn eu dosbarth newydd na charfannau/grwpiau blwyddyn blaenorol	Mae fy staff wedi newid y ffordd y maent yn addysgu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn sgiliau/gwybodaeth plant sy'n symud drwy'r Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 1	Mae fy staff wedi newid y ffordd y maent yn addysgu er mwyn helpu plant i addasu'n haws i wahanol ystafelloedd dosbarth ac ymarferwyr	Mae fy staff wedi newid y ffordd y maent yn addysgu yn y tair blynedd diwethaf
Cytuno'n Gryf	5	5	19	14	23
Cytuno	19	13	18	21	13
Dim yn cytuno nac anghytuno	7	16	1	4	3
Anghytuno	8	3	2	1	1
Anghytuno'n gryf	0	1	0	1	0
Dim yn gwybod/ Dim yn gymwys	4	5	3	2	3
Dim Ymateb	0	0	0	0	0
Cyfanswm	43	43	43	43	43

C8. Yn gyffredinol, pa mor hawdd ydych chi'n meddwl yw hi i ddisgyblion yn eich ysgol i symud o'r Cyfnod Sylfaen/CA1 i CA2?	... addasu i'r cwricwlwm newydd yn CA2	... addasu i'r athro/athrawes newydd yn CA2	... setlo gyda chyd-ddisgyblion newydd yn CA2	... addasu i'r disgwyliadau newydd o ran ymddygiad	... addasu i'r disgwyliadau newydd o ran dysgu	... addasu i'r disgwyliadau newydd o ran gwaith cartref
Hawdd iawn	9	15	13	13	11	7
Gweddol hawdd	14	17	20	14	13	13
Dim yn hawdd nac anodd	9	4	3	6	7	10
Gweddol anodd	6	2	1	6	8	8
Anodd iawn	1	1	0	0	0	1
Dim yn gwybod/ Dim yn gymwys	4	4	6	4	4	4
Dim Ymateb	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	43	43	43	43	43	43

C9 Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl yw'r strategaethau canlynol (os y'u defnyddir yn eich ysgol) mewn cynorthwyo plant i symud i CA2	Strategaeth arall	Cael cefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant sy'n ei chael hi'n anodd addasu, neu sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	Cael un ymarferydd i symud i fyny'r ysgol gyda'r dosbarth	Ymarferwyr yn addasu eu dulliau addysgu er mwyn gwneud y trosglwyddo'n rhwyddach (megis mabwysiadu'r Ymagwedd Cyfnod Sylfaen i ddysgu)	Ymarferwyr yn cydweithio ar draws gwahanol gamau addysg (h.y. drwy siarad, rhannu arfer, cyd-gynllunio)
Effeithiol iawn	4	27	2	19	22
Gweddol effeithiol	1	6	3	15	13
Dim yn effeithiol iawn	0	0	2	0	0
Dim yn effeithiol o gwbl	1	1	3	1	1
Ni ddefnyddir y strategaeth yn fy ysgol i	26	5	31	6	5
Dim Ymateb	11	4	2	2	2
Cyfanswm	43	43	43	43	43

C10a A oes unrhyw rai o'ch staff wedi mynychu hyfforddiant yn y pedair blynedd diwethaf i'w cynorthwyo i baratoi/gweithio gyda phlant yn symud o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3?	N	%
Oes	21	49%
Nac Oes	21	49%
Dim y gwybod	1	2%

C10a A oes unrhyw rai o'ch staff wedi mynychu hyfforddiant yn y pedair blynedd diwethaf i'w cynorthwyo i baratoi/gweithio gyda phlant yn symud o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3?	N	%
Cyfanswm	43	100%
C10b. Os oes, pwy ddarparodd yr hyfforddiant?	N	%
Awdurdod Lleol	14	67%
Ysgol	6	29%
Arall	0	0%
Dim Ymateb	1	5%
Cyfanswm	21	100%
C10c. A wyddech chi a oeddent yn teimlo bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol?	N	%
Defnyddiol iawn	10	48%
Gweddol ddefnyddiol	9	43%
Dim yn ddefnyddiol iawn	0	0%
Dim yn ddefnyddiol o gwbl	0	0%
Dim yn gwybod	2	10%

C10c. A wyddech chi a oeddent yn teimlo bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol?		
	N	%
Dim yn gymwys - Ni ddigwyddodd hyfforddiant o'r fath	0	0%
Dim Ymateb	0	0%
Cyfanswm	21	100%

Ymarferwr

Amdanoch chi

C1. Prif rôl	N	%
Pennaeth Cyfnod Sylfaen	20	28%
Pennaeth Cyfnod Allweddol 1	3	4%
Pennaeth Cyfnod Allweddol 2	10	14%
Athro/Athrawes Blwyddyn 1	2	3%
Cynorthwyydd Addysgu Blwyddyn 1	0	0%
Athro/Athrawes Blwyddyn 2	10	14%
Cynorthwyydd Addysgu Blwyddyn 2	0	0%
Athro/Athrawes Blwyddyn 3	11	15%
Cynorthwyydd Addysgu Blwyddyn 3	0	0%
Dim Ymateb	15	21%
Cyfanswm	71	100%

C2. Pa mor hir ydych chi wedi gweithio yn yr ysgol hon?	N	%
Llai na blwyddyn	4	6%
1-3 blynedd	9	13%
4-6 blynedd	10	14%
7-9 blynedd	9	13%
10 mlynedd neu hwy	39	55%
Cyfanswm	71	100%

C3. Pa mor hir ydych chi wedi bod yn athro/athrawes/ymarferydd?	N	%
Llai na blwyddyn	1	1%
1-3 blynedd	5	7%
4-6 blynedd	7	10%
7-9 blynedd	5	7%
10-19 blynedd	28	39%
20-29 blynedd	15	21%
30-39 blynedd	10	14%
Cyfanswm	71	100%

Cyfnod Sylfaen

C4. Pa mor gyfarwydd fydddech chi'n dweud ydych chi â'r Cyfnod Sylfaen?	N	%
Rwy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen, ac mae gennyf wybodaeth weithiol dda ohono	46	65%
Rwy'n gwybod cryn dipyn am y Cyfnod Sylfaen, ond hoffwn gael gwybod mwy	24	34%
Rydwi i wedi clywed am y Cyfnod Sylfaen, ond wn i ddim fawr iawn amdano	1	1%
Nid wyf wedi clywed am y Cyfnod Sylfaen	0	0%
Cyfanswm	71	100%

C5. I ba raddau fydddech chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y datganiadau canlynol yn adlewyrchu eich barn am addysgu yn eich ysgol?	Rwy'n gyfforddus gyda'r syniad o ddysgu seiliedig ar chwarae yn yr ysgol	Rydwi i wedi fy hyfforddi mewn defnyddio dysgu trwy brofiad	Y ffactor allweddol mewn penderfynu beth (a sut) y caiff plentyn ei addysgu yw ei oedran	Dylid addysgu pob plentyn yn ôl ei gam datblygiadol	Mae'n well gennyf i blant eistedd yn dawel wrth eu desgiau yn yr ystafell ddosbarth	Credaf y dylai'r cwricwlwm gael ei seilio ar bynciau	Mae'r Saith Maes Dysgu yn rhoi cwricwlwm eang a chytbwys i'r holl blant	Rwy'n hapus yn gweithio gyda phlant y tu allan i'r ystafell ddosbarth
Cytuno'n Gryf	44	33	2	50	0	1	43	48
Cytuno	24	24	6	18	0	4	25	22
Dim yn cytuno nac anghytuno	3	4	11	3	9	12	1	1
Anghytuno	0	6	25	0	20	33	1	
Anghytuno'n gryf	0	1	26	0	42	21	0	0
Dim yn gwybod/ Dim yn gymwys	0	2	1	0	0	0	0	0

C5. I ba raddau fydddech chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y datganiadau canlynol yn adlewyrchu eich barn am addysgu yn eich ysgol?	Rwy'n gyfforddus gyda'r syniad o ddysgu seiliedig ar chwarae yn yr ysgol	Rydw i wedi fy hyfforddi mewn defnyddio dysgu trwy brofiad	Y ffactor allweddol mewn penderfynu beth (a sut) y caiff plentyn ei addysgu yw ei oedran	Dylid addysgu pob plentyn yn ôl ei gam datblygiadol	Mae'n well gennyf i blant eistedd yn dawel wrth eu desgiau yn yr ystafell ddosbarth	Credaf y dylai'r cwricwlwm gael ei seilio ar bynciau	Mae'r Saith Maes Dysgu yn rhoi cwricwlwm eang a chytbwys i'r holl blant	Rwy'n hapus yn gweithio gyda phlant y tu allan i'r ystafell ddosbarth
Dim Ymateb	0	1	0	0	0	0	1	
Cyfanswm	71	71	71	71	71	71	71	71

C6. Sut, os o gwbl, yr ydych chi'n meddwl y bydd cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen yn newid/mae wedi newid pethau ar gyfer plant yn eich ysgol?	... ddod yn ddysgwyr annibynnol	... bod yn fwy abl i weithio'n dda gydag eraill	... bod yn well am ddatrys problemau	... cyflawni mwy yn academiaidd	... ymddwyn yn well	... dod yn fwy hunan hyderus
Bydd y Cyfnod Sylfaen yn helpu plant i						
Bydd yn gwneud hyn i'r holl blant	39	48	43	21	19	46
Bydd yn gwneud hyn i rai plant	31	22	27	47	49	23
Ni fydd yn gwneud hyn i unrhyw blentyn	0	0	0	1	1	1
Dim Ymateb	1	1	1	2	2	1
Cyfanswm	71	71	71	71	71	71

C7. Pa un o'r datganiadau hyn sy'n disgrifio orau agwedd eich disgyblion tuag at wahanol agweddau o ddysgu?	... ddefnyddi o rhifau	... siarad a gwranddo	... darllen ac ysgrifennu	... caffael sgiliau iaith Gymraeg	... gweithio mewn parau/grwpiau	... chwarae chwaraeon	... bod yn greadigol	... deall gwahanol grefyddau a diwylliannau
Cadarnhaol iawn	22	35	15	18	35	28	41	20
Cadarnhaol ar y cyfan	15	10	13	11	11	13	6	11
Cymysg iawn	9	7	14	23	5	5	5	15
Negyddol ar y cyfan	0	0	1	0	0	0	0	1
Negyddol iawn	0	0	1	1	0	0	0	0
Dim yn gwybod/Dim yn gymwys	2	2	2	2	1	2	2	2
Dim Ymateb	23	17	25	16	19	23	17	22
Cyfanswm	71	71	71	71	71	71	71	71

Trosglwyddo rhwng y Cyfnod Sylfaen/CA1 → CA2

C7. I ba raddau ydych chi yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol am drosglwyddo yn eich ysgol?	Mae'r disgyblion sy'n symud i CA2 yn barod am newid mewn addysgu a'r cwricwlwm	Mae plant yn ei chael hi'n haws setlo yn eu dosbarth newydd na charfannau/grwpiau blwyddyn blaenorol	Rydw i wedi newid y ffordd yr wyf yn addysgu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn sgiliau/gwybodaeth plant sy'n symud drwy'r Cyfnod Sylfaen/Cyfnod Allweddol 1	Rydw i wedi newid y ffordd yr wyf yn addysgu er mwyn helpu plant i addasu'n haws i wahanol ystafelloedd dosbarth ac athrawon	Rydw i wedi newid y ffordd yr wyf yn addysgu yn y tair blynedd diwethaf
Cytuno'n Gryf	13	6	31	16	30
Cytuno	30	15	29	33	37
Dim yn cytuno nac anghytuno	13	33	7	17	1
Anghytuno	10	9	0	2	0
Anghytuno'n gryf	2	1	0	1	0
Dim yn gwybod/ Dim yn gymwys	1	4	0	0	1
Dim Ymateb	2	3	4	2	2
Cyfanswm	71	71	71	71	71

C8. Yn gyffredinol, pa mor hawdd ydych chi'n meddwl yw hi i ddisgyblion yn eich ysgol i symud o'r Cyfnod Sylfaen/CA1 i CA2?						
Mae plant yn fy ysgol yn ei chael hi'n hawdd i...	... addasu i'r cwricwlwm newydd yn CA2	... addasu i'r athro/athrawes newydd yn CA2	... setlo gyda chyd-ddisgyblion newydd yn CA2	... addasu i'r disgwyliadau newydd o ran ymddygiad	... addasu i'r disgwyliadau newydd o ran dysgu	... addasu i'r disgwyliadau newydd o ran gwaith cartref
Hawdd iawn	13	24	29	19	17	11
Gweddol hawdd	28	34	26	26	27	32
Dim yn hawdd nac anodd	13	5	5	10	12	13
Gweddol anodd	11	2	0	8	9	9
Anodd iawn	1	0	0	0	1	0
Dim yn gwybod/ Dim yn gymwys	2	4	9	6	3	4
Dim Ymateb	3	2	2	2	2	2
Cyfanswm	71	71	71	71	71	71

C11. Pa mor hawdd yw hi i...	... siarad ag ymarferwyr mewn grwpiau blwyddyn eraill	... rhannu adnoddau gydag eraill	... cydweithio gydag eraill	... cynllunio gydag eraill	... arsylwi ar ymagwedd ymarferwyr eraill tuag at ddarparu'r cwriclewm
Hawdd iawn	55	43	47	33	23
Gweddol hawdd	15	26	23	30	28
Dim yn hawdd iawn	1	2	1	7	19
Dim yn hawdd o gwbl	0	0	0	0	1
Dim ymateb	0	0	0	1	0
Cyfanswm	71	71	71	71	71

C12a. Ydych chi wedi mynychu hyfforddiant yn y pedair blynedd diwethaf i'ch cynorthwyo i baratoi/gweithio gyda phlant yn symud o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3?	N	%
Ydw	18	25%
Nac ydw	53	75%
Dim yn gwybod	0	0%
Cyfanswm	71	100%

C12b. Os ydych, pwy ddarparodd yr hyfforddiant?	N	%
Awdurdod Lleol	8	44%
Ysgol	5	28%
Arall - nodwch	3	17%
Dim ymateb	2	11%
Cyfanswm	18	100%

C12c. Ydych chi'n teimlo bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol?	N	%
Defnyddiol iawn	12	67%
Gweddol ddefnyddiol	4	22%
Dim yn ddefnyddiol iawn	1	6%
Dim yn ddefnyddiol o gwbl	0	0%
Dim yn gymwys - Ni ddigwyddodd hyfforddiant o'r fath	0	0%
Dim ymateb	1	6%
Cyfanswm	18	100%

C13 Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl yw'r strategaethau canlynol (os y'u defnyddir yn eich ysgol) mewn cynorthwyo plant i symud i CA2	Strategaeth arall	Cael cefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant sy'n ei chael hi'n anodd addasu, neu sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	Cael un ymarferydd i symud i fyny'r ysgol gyda'r dosbarth	Ymarferwyr yn addasu eu dulliau addysgu er mwyn gwneud y trosglwyddo'n rhwyddach (megis mabwysiadu'r Ymagwedd Cyfnod Sylfaen i ddysgu)	Ymarferwyr yn cydweithio ar draws gwahanol gamau addysg (h.y. drwy siarad, rhannu arfer, cyd-gynllunio)
Effeithiol iawn	4	49	6	35	40
Gweddol effeithiol	1	8	4	16	17
Dim yn effeithiol iawn	0	0	3	2	1
Dim yn effeithiol o gwbl	0	0	1	0	0
Ni ddefnyddir y strategaeth yn fy ysgol i	56	11	53	12	10
Dim Ymateb	10	3	4	6	3
Cyfanswm	71	71	71	71	71